# Adroddiad Gwella Blynyddol 2014-15

# Cyngor Dinas Caerdydd

Cyhoeddwyd: Awst 2015
Cyfeirnod y ddogfen: 375A2015



Paratowyd yr Adroddiad Gwella Blynyddol hwn ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru gan Non Jenkins a Chris Pugh o dan gyfarwyddyd Alan Morris.

**Huw Vaughan Thomas**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**
**Swyddfa Archwilio Cymru**
**24 Heol y Gadeirlan**
**Caerdydd**
**CF11 9LJ**

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol ar y llywodraeth a chaiff ei benodi gan Ei Mawrhydi y Frenhines. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Fwrdd Swyddfa Archwilio Cymru, sef bwrdd statudol a sefydlwyd at y diben hwnnw ac er mwyn monitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol. Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn atebol i'r Cynulliad Cenedlaethol.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau unedol, yr heddlu, gwasanaethau prawf, awdurdodau tân ac achub, parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned. Mae hefyd yn cynnal astudiaethau gwerth am arian llywodraeth leol ac yn asesu cydymffurfiaeth â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Y tu hwnt i lywodraeth leol, yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol Llywodraeth Cymru a'r cyrff a noddir ganddi a'i chyrff cyhoeddus cysylltiedig, Comisiwn y Cynulliad a chyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol a staff Swyddfa Archwilio Cymru yn anelu at ddarparu adroddiadau cymesur sy'n canolbwyntio ar y cyhoedd ar stiwardiaeth adnoddau cyhoeddus a thrwy wneud hynny, feithrin dealltwriaeth a hyrwyddo gwelliant.

# Cynnwys


Adroddiad cryno 4

Diben yr adroddiad hwn 4

Gwaith archwilio perfformiad 2014-15 5

Yn seiliedig ar y gwaith a wnaed gan Swyddfa Archwilio Cymru a rheoleiddwyr perthnasol hyd yma, ac yn gyfyngedig i'r gwaith hwnnw, cred yr Archwilydd Cyffredinol nad yw'n sicr a yw'r Cyngor yn debygol o gydymffurfio â gofynion y Mesur yn ystod 2015-16. Fodd bynnag, byddwn yn gwneud gwaith dilynol ar y cynnydd y mae'r Cyngor wedi'i wneud o ran mynd i'r afael â'r materion a godwyd gennym yn ein Hasesiad Corfforaethol ar gyfer 2014 yn ystod Hydref 2015 7

Penawdau - crynodeb o'r prif ganfyddiadau 9

Argymhellion a Chynigion ar gyfer Gwella 11

Adroddiad manwl 13

Y defnydd o adnoddau 14

Llywodraethu 15

Perfformiad 18

Atodiadau

Atodiad 1 – Statws yr adroddiad hwn 27

Atodiad 2 – Archwiliad o Gynllun Gwella Cyngor Dinas Caerdydd 2014-15 28

Atodiad 3 – Archwiliad asesiad o berfformiad 2013-14 Cyngor Dinas Caerdydd 30

Atodiad 4 – Adborth ar yr archwiliad o asesiad y Cyngor o'i berfformiad 32

Atodiad 5 – Archwiliad o Gynllun Gwella Cyngor Dinas Caerdydd 2015-16 34

Atodiad 6 – Llythyr Archwilio Blynyddol 36

Atodiad 7 – Gwybodaeth am incwm, gwariant a lefelau staffio'r Cyngor 38

Atodiad 8 – Argymhellion adroddiadau cenedlaethol 2014-15 39

# Adroddiad cryno

## Diben yr adroddiad hwn

1 Bob blwyddyn, mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol archwilio trefniadau cynllunio ac adrodd ar welliant cynghorau, awdurdodau tân ac achub ac awdurdodau parciau cenedlaethol yng Nghymru, ac asesu a fydd pob awdurdod yn cyflawni dyletswyddau statudol yn ymwneud â gwelliant parhaus[1]. Cyflawnwyd y gwaith hwn ar ran yr Archwilydd Cyffredinol gan staff Swyddfa Archwilio Cymru. Mae Atodiad 1 yn rhoi rhagor o wybodaeth am bwerau a dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol o fewn llywodraeth leol.

2 Yn ogystal, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cynnal asesiad corfforaethol trylwyr ym mhob awdurdod ar sail gylchol (unwaith bob pedair blynedd o leiaf ar hyn o bryd). Yn y cyfamser, yn ogystal ag archwilio trefniadau cynllunio ac adrodd ar welliant, bydd Swyddfa Archwilio Cymru, ar ran yr Archwilydd Cyffredinol, yn olrhain datblygiadau ac yn cyflawni gwaith asesu pellach sy'n canolbwyntio ar nifer o themâu allweddol, a ddatblygir mewn trafodaeth â phob awdurdod.

3 Mae'r Adroddiad Gwella Blynyddol hwn yn crynhoi'r gwaith archwilio a wnaed yng Nghyngor Dinas Caerdydd (y Cyngor) ers cyhoeddi'r adroddiad diwethaf o'r fath ym mis Medi 2014, pan gafodd ei gyfuno ag Asesiad Corfforaethol y Cyngor.

4 Daeth yr Asesiad Corfforaethol i'r casgliad canlynol: **roedd trefniadau arwain a rheoli tameidiog yn golygu nad oedd perfformiad gwan mewn meysydd gwasanaethau allweddol wedi gwella**. Yn ystod 2015, byddwn yn cynnal adolygiad dilynol er mwyn asesu sut mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd a sut mae'n mynd i'r afael â'r materion a nodwyd yn yr Asesiad Corfforaethol.

5 Mae'r Adroddiad Gwella Blynyddol cyfredol hwn yn cynnwys crynodeb o'r canfyddiadau allweddol o adroddiadau a gyhoeddwyd gan 'reoleiddwyr perthnasol', sef: Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC); Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru (Estyn); a Chomisiynydd y Gymraeg. Serch hynny, nid yw'r adroddiad hwn yn adolygiad cynhwysfawr o holl drefniadau neu wasanaethau'r Cyngor. Mae'r casgliadau a geir yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar y gwaith a gyflawnwyd o fewn y Cyngor gan gyrff adolygu allanol perthnasol ac, oni nodir fel arall, yn adlewyrchu'r sefyllfa ar yr adeg pan gafodd gwaith o'r fath ei gwblhau.

6 Gan ystyried y gwaith a gyflawnwyd yn ystod 2014-15, bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn nodi, yn yr adroddiad hwn, a yw o'r farn y bydd y Cyngor yn debygol o wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus ar gyfer 2015-16.

7 Ni ddylid ystyried bod y datganiad hwn yn rhoi barn bendant am sefyllfa sefydliad nac yn rhagfynegi ei lwyddiant yn y dyfodol. Yn hytrach, dylid ystyried ei fod yn rhoi barn am y graddau y mae'r trefniadau sydd ar waith ar hyn o bryd yn rhesymol gadarn i'r graddau y gellir nodi hynny ar sail y gwaith a gyflawnwyd.

8 Rydym am wybod a yw'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch ac a yw'n hawdd ei ddeall. Gallwch fynegi eich barn drwy anfon e-bost atom yn post@archwilio.cymru neu ysgrifennu atom yn 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd, CF11 9LJ.

1 Nodir dyletswyddau a gofynion ym Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur).

## Gwaith archwilio perfformiad 2014-15

9 Wrth bennu’r amrywiaeth o waith a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn, gwnaethom ystyried graddau’r wybodaeth archwilio ac arolygu a gasglwyd yn ogystal â ffynonellau eraill o wybodaeth a oedd ar gael, gan gynnwys systemau adolygu a gwerthuso’r Cyngor ei hun. Yn ystod 2014-15, gwnaethom gyflawni gwaith asesu gwelliant o dan dair thema: y defnydd o adnoddau; llywodraethu; a pherfformiad.

10 Nodir y gwaith a gyflawnwyd ers yr Adroddiad Gwella Blynyddol diwethaf, gan gynnwys gwaith y ‘rheoleiddwyr perthnasol’, isod:

| Enw’r Prosiect | Disgrifiad byr | Dyddiadau [pryd y cyflawnwyd y gwaith] |
|---|---|---|
| **Archwiliad 'Cynllun Gwella' Blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru 2014-15** | Archwiliad 'Cynllun Gwella' Blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru | Mehefin 2014 |
| **Archwiliad 'Cynllun Gwella' Blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru 2015-16** | Archwiliad 'Cynllun Gwella' Blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru | Ebrill 2015 |
| **Archwiliad o 'Asesiad o Berfformiad' Blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru** | Archwilio asesiad o berfformiad 2013-14 Cyngor Dinas Caerdydd | Tachwedd 2014 |
| **Archwiliad o Gyfrifon y Cyngor** | Rhoi barn ynghylch pa un a yw'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol y Cyngor ar 31 Mawrth 2014 a'i incwm a'i wariant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny. | Mis Gorffennaf i fis Medi 2014 |
| **Trefniadau i helpu i ddiogelu plant** | Adolygiad o drefniadau llywodraethu a rheoli'r Cyngor er mwyn rhoi sicrwydd bod plant yn cael eu diogelu ac y gellir tynnu sylw at unrhyw bryderon yn effeithiol ac yn effeithlon. | Mis Mawrth i fis Mai 2014, cyhoeddwyd ym mis Hydref 2014 |
| **Ymweliad Gwelliant Sylweddol Estyn** | Ymweliad Monitro. | Mawrth 2015 |
| **Estyn – Adroddiad Monitro – Partneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned Caerdydd a'r Fro** | Ymweliad Monitro. | Ionawr 2015 |

| Enw’r Prosiect | Disgrifiad byr | Dyddiadau [pryd y cyflawnwyd y gwaith] |
|---|---|---|
| **Adroddiad Gwerthuso Perfformiad AGGCC 2013-14** | Adolygiad Blynyddol o swyddogaeth Gwasanaethau Cymdeithasol y Cyngor. | Hydref 2014 |
| **Arolygiad Cenedlaethol AGGCC: Diogelu a Chynllunio Gofal ar gyfer plant sy’n derbyn gofal ac unigolion sy’n gadael gofal sy’n ymddwyn mewn ffordd sy’n eu gwneud yn agored i niwed neu a allai beri risg** | Asesiad o ansawdd Diogelu a Chynllunio Gofal | Mis Ionawr i fis Mai 2014, cyhoeddwyd ym mis Awst 2014 |
| **Cyflawni â Llai – Iechyd yr Amgylchedd** | Adolygiad o effaith toriadau mewn adnoddau ar wasanaethau amgylcheddol. | Ionawr 2015 |
| **Adolygiad o Ansawdd Data** | Adolygiad o drefniadau ansawdd data'r Cyngor. | Mis Ionawr i fis Mawrth 2015 |
| **Rheoli effaith Diwygiadau Lles ar Denantiaid Tai Cymdeithasol yng Nghymru** | Adolygiad o'r trefniadau i reoli effaith diwygiadau lles. | Mis Rhagfyr 2013 i fis Mawrth 2014 |
| **Casgliadau Comisiynydd y Gymraeg** | Adolygiad o ddull gweithredu'r Cyngor mewn perthynas â'r Gymraeg. | Medi 2014 |

## Yn seiliedig ar y gwaith a wnaed gan Swyddfa Archwilio Cymru a rheoleiddwyr perthnasol hyd yma, ac yn gyfyngedig i'r gwaith hwnnw, cred yr Archwilydd Cyffredinol nad yw'n sicr a yw'r Cyngor yn debygol o gydymffurfio â gofynion y Mesur yn ystod 2015-16. Fodd bynnag, byddwn yn gwneud gwaith dilynol ar y cynnydd y mae'r Cyngor wedi'i wneud o ran mynd i'r afael â'r materion a godwyd gennym yn ein Hasesiad Corfforaethol ar gyfer 2014 yn ystod Hydref 2015

11 Yn ystod 2014-15 cafodd nifer o adroddiadau eu cyflwyno i'r Cyngor gan yr Archwilydd Cyffredinol, Estyn, AGGCC a Chomisiynydd y Gymraeg. Nodwyd sawl maes i'w wella yn ystod y gwaith hwn.

12 Ers 2013-14 bu gwendidau sylweddol o ran y ffordd y cyflawnodd y Cyngor ei ddyletswyddau o dan y Mesur.

13 Ym mis Medi 2013, ysgrifennodd yr Archwilydd Cyffredinol at y Cyngor yn nodi bod lle i wella'r ffordd yr oedd y Cyngor yn ceisio cyflawni ei ddyletswyddau o dan y Mesur ymhellach. Nododd y llythyr fod angen i'r Cyngor nodi blaenoriaethau gwella clir ar gyfer 2013-14 fel mater o frys am nad oedd hyn wedi'i wneud ers mis Medi 2013. At hynny, nododd y llythyr nad oedd ei Gynllun Gwella yn cynnwys unrhyw dargedau clir a mesuradwy, a oedd yn golygu na fyddai'r Cyngor yn gallu gwerthuso ei berfformiad yn llawn.

14 Gwnaeth yr Archwilydd Cyffredinol dri chynnig ar gyfer gwella mewn perthynas â'r materion hyn, sef:

a pennu blaenoriaethau gwella clir ar gyfer 2013-14 erbyn mis Tachwedd 2013, gan nodi'n glir y gwelliant penodol yr oedd y Cyngor yn ceisio ei sicrhau yn ystod y flwyddyn fel y gellid cyflwyno adroddiadau mwy penodol ar ganlyniadau;

b gwella prosesau adrodd ar berfformiad sy'n ofynnol gan y Mesur; a

c datblygu trefniadau rheoli perfformiad.

15 Ym mis Medi 2014, cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol ei Asesiad Corfforaethol o'r Cyngor, gan ddod i'r casgliad bod trefniadau arwain a rheoli tameidiog yn golygu nad oedd perfformiad gwan mewn meysydd gwasanaethau allweddol wedi gwella. Nodwyd hyn yn ein Hadroddiad Gwella Blynyddol ar gyfer 2013-14 i'r Cyngor.

16 Daeth yr Archwilydd Cyffredinol i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

a oherwydd ansefydlogrwydd gwleidyddol ac ansefydlogrwydd o ran rheolwyr dros nifer o flynyddoedd nid oedd y Cyngor wedi llwyddo i ddatblygu'r diwylliant a'r fframwaith angenrheidiol er mwyn sicrhau gwelliant parhaus;

b nododd y Cyngor beth yr hoffai ei gyflawni ar gyfer ei ddinasyddion ond nid oedd ganddo ddull cyflawni effeithiol;

c nid oedd rhai prosesau y bwriadwyd iddynt sicrhau trefniadau llywodraethu da wedi'u rhoi ar waith ac nid oedd y prosesau gwneud penderfyniadau yn ddigon effeithlon na thryloyw;

ch er gwaethaf rhai newidiadau diweddar, nid oedd y trefniadau rheoli perfformiad wedi llwyddo i sicrhau gwelliannau cyson yn y gorffennol;

d er i'r Cyngor sicrhau bod ganddo gyllideb fantoledig, roedd y rhagolygon ar gyfer cyflawni'r arbedion arfaethedig yn 2014-15 yn ansicr ac roedd y lefelau cyllid disgwyliedig yn y dyfodol yn golygu nad oedd y dulliau presennol o ddarparu gwasanaethau yn gynaliadwy;

dd roedd y trefniadau adnoddau dynol corfforaethol yn seiliedig ar arfer cadarnhaol ond nid oeddent yn cael eu rhoi ar waith yn gyson;

e roedd y Cyngor yn gwneud defnydd gwell o dechnoleg gwybodaeth a'i drefniadau rheoli gwybodaeth;

f nid oedd y Cyngor yn rheoli ei asedau tir nac eiddo yn dda; ac

ff roedd y Cyngor yn cydweithio'n dda ag eraill a gallai ddangos bod y canlyniadau i ddinasyddion wedi gwella.

17 Gwnaed un cynnig ar gyfer gwella fel rhan o'r adroddiad Asesu Corfforaethol, sef: 'Mae'r Cyngor yn sicrhau bod ei Gynllun Datblygu Sefydliadol yn cael ei roi ar waith er mwyn datrys y materion amrywiol a nodir yn yr Asesiad Corfforaethol'.

18 Ym mis Tachwedd 2014, gwnaethom archwilio asesiad y Cyngor o'i berfformiad ar gyfer 2013-14. Cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol dystysgrif cydymffurfio yn cadarnhau bod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau o dan y Mesur. Yn ystod ar archwiliad hwn nodwyd sawl maes i'w wella a chryfderau, a nodwyd mewn llythyr i'r Prif Weithredwr (Atodiad 4).

19 Ym mis Ebrill 2015 gwnaethom archwilio Cynllun Gwella'r Cyngor ar gyfer 2015-16 a chyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol dystysgrif cydymffurfio yn cadarnhau bod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau o dan y Mesur (Atodiad 5). Nodwyd yn ystod yr archwiliad fod y Cyngor wedi gwneud newid sylweddol i wella ansawdd ei Gynllun Gwella ar gyfer 2015-16 o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

20 Ym mis Hydref 2015, byddwn yn cynnal adolygiad dilynol o ran yr Asesiad Corfforaethol a gynhaliwyd yn 2014. Bydd yr adolygiad dilynol yn asesu'r cynnydd sydd wedi'i wneud ers yr Asesiad Corfforaethol a threfniadau'r Cyngor i sicrhau gwelliant parhaus.

## Penawdau - crynodeb o’r prif ganfyddiadau

21 Mae’r tabl isod yn crynhoi canfyddiadau allweddol adroddiadau a gyhoeddwyd ers yr Adroddiad Gwella Blynyddol diwethaf gan Swyddfa Archwilio Cymru, AGGCC, Estyn a Chomisiynydd y Gymraeg.

| | |
|---|---|
| **Archwilio cyfrifon** | Rhoddodd yr Archwilydd Penodedig farn ddiamod ar ddatganiadau ariannol y Cyngor ar 29 Medi 2014.<br>Mae hyn yn golygu ein bod o'r farn bod y datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol y Cyngor a'i wariant a'i incwm ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2014. (Atodiad 6) |
| **Archwilio trefniadau cynllunio ac adrodd ar welliant** | Gwnaethom gyhoeddi tystysgrifau archwilio yn nodi bod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau o dan y Mesur (gweler Atodiadau 2, 3 a 5). |
| **Y defnydd o adnoddau** | Nodir gwybodaeth am incwm, gwariant a lefelau staffio'r Cyngor yn Atodiad 7. |
| **Llywodraethu** | Cyflwynodd Swyddfa Archwilio Cymru adroddiad ar drefniadau’r Cyngor i helpu i ddiogelu plant ym mis Hydref 2014:<br>• roedd y trefniadau llywodraethu, atebolrwydd a rheoli ar gyfer monitro a gyflawnodd y Cyngor ei gyfrifoldebau o ran diogelu plant yn cynnwys rhai gwendidau y mae’n rhaid i’r Cyngor fynd i’r afael â hwy;<br>• roedd gan drefniadau’r Cyngor ar gyfer monitro a gwerthuso ei gyfrifoldebau diogelu plant rai gwendidau yr oedd y Cyngor yn mynd i’r afael â hwy; ac<br>• roedd gan ddull y Cyngor o nodi gwelliannau o ran ei drefniadau diogelu a gweithredu arnynt rai gwendidau yr oedd y Cyngor yn mynd i’r afael â hwy.<br>Swyddfa Archwilio Cymru - Hydref 2014. |

| | |
|---|---|
| **Perfformiad** | Parhaodd Estyn i fonitro cynnydd y Cyngor yn dilyn arolygiad ym mis Ionawr 2011.<br>Estyn – Mawrth 2015<br><br>Roedd Partneriaethau Dysgu Oedolion yn y Gymuned Caerdydd a Bro Morgannwg wedi gwneud cynnydd digonol mewn perthynas â'r argymhellion o'i harolygiadau craidd ar wahân. Ers hynny mae'r ddwy Bartneriaeth wedi uno i ffurfio Partneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned Caerdydd a'r Fro ac nid ystyrir bod angen unrhyw weithgarwch dilynol pellach arni.<br>Mae'r adroddiad llawn ar gael ar wefan Estyn.<br><br>Bu 2013-14 yn flwyddyn heriol ac anodd i'r adran gwasanaethau cymdeithasol ond cafwyd asesiad clir o'r heriau a oedd yn ei hwynebu yn y dyfodol, yn enwedig o ran recriwtio a chadw staff a gwella perfformiad.<br>AGGCC Hydref 2014 – Adroddiad llawn<br><br>Cynhaliodd AGGCC Arolygiad Cenedlaethol o'r canlynol: Diogelu a chynllunio gofal ar gyfer plant sy'n derbyn gofal ac unigolion sy'n gadael gofal sy'n ymddwyn mewn ffordd sy'n eu gwneud yn agored i niwed neu a allai beri risg.<br>AGGCC Awst 2014 – Adroddiad llawn<br><br>Ar y cyfan, roedd y Cyngor yn llwyddo i gyrraedd safon dda neu'n uwch mewn perthynas â'i wasanaethau iechyd yr amgylchedd, ond oherwydd toriadau mewn adnoddau a safbwyntiau negyddol ynghylch ansawdd gwasanaethau presennol a'r broses o'u rheoli, bydd y Cyngor yn ei chael hi'n anodd cyflawni dyletswyddau statudol newydd sy'n diogelu'r cyhoedd a'r amgylchedd yn y dyfodol.<br>Swyddfa Archwilio Cymru - Rhagfyr 2014<br><br>Rhoddodd tîm perfformiad canolog y Cyngor nifer o reolaethau ar waith er mwyn helpu i sicrhau y câi gwybodaeth gywir am berfformiad ei chyhoeddi, ond roedd nifer o wendidau o hyd mewn systemau sylfaenol.<br>Swyddfa Archwilio Cymru - Mai 2015<br><br>Sefydlodd y Cyngor systemau da i weinyddu Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn a rheoli effaith diwygiadau lles er y gellid gwneud rhai taliadau pellach er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth hyd yn oed yn fwy ymatebol i anghenion ymgeiswyr.<br>Swyddfa Archwilio Cymru – Ionawr 2015<br><br>Roedd y Cyngor yn mynd ati mewn ffordd gadarnhaol i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle drwy gymeradwyo Strategaeth Sgiliau Iaith Gymraeg newydd a sefydlodd Weithgor Cymraeg newydd a oedd yn cynnwys aelodau o bob plaid wleidyddol.<br>Comisiynydd y Gymraeg – Medi 2014. Mae adroddiad llawn ar gael yn:<br>www.comisiynyddygymraeg.org |

## Argymhellion a Chynigion ar gyfer Gwella

22 O ystyried yr ystod eang o wasanaethau a ddarperir gan y Cyngor a'r heriau y mae'n eu hwynebu, byddai'n anarferol pe na baem wedi dod o hyd i bethau y gellir eu gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol:

a wneud cynigion ar gyfer gwella - os caiff cynigion eu gwneud i'r Cyngor, byddem yn disgwyl iddo weithredu arnynt a byddwn yn gwneud gwaith dilynol ar yr hyn sy'n digwydd;

b gwneud argymhellion ffurfiol ar gyfer gwella - os caiff argymhelliad ffurfiol ei wneud, mae'n rhaid i'r Cyngor baratoi ymateb i'r argymhelliad hwnnw o fewn 30 diwrnod gwaith;

c cynnal arolygiad arbennig a chyhoeddi adroddiad a gwneud argymhellion; ac

ch argymell y dylai Gweinidogion Llywodraeth Cymru ymyrryd mewn rhyw ffordd.

23 Yn ystod y flwyddyn, ni wnaeth yr Archwilydd Cyffredinol unrhyw argymhellion ffurfiol. Fodd bynnag, cynhwysir cynigion ar gyfer gwella yn ein hadroddiadau eraill ond efallai y cyfeirir atynt yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn.

24 Roedd gan y Cyngor un cynnig ar gyfer gwella mewn perthynas â'i Asesiad Corfforaethol y cyflwynwyd adroddiad arno ym mis Medi 2014, sef:

| Chynigion ar gyfer Gwella | |
|---|---|
| C1 | Mae'r Cyngor yn sicrhau bod ei Gynllun Datblygu Sefydliadol yn cael ei roi ar waith er mwyn datrys y materion amrywiol a nodir yn yr Asesiad Corfforaethol. |

25 Byddwn yn parhau i fonitro cynigion ar gyfer gwella yn ystod ein gwaith asesu gwelliant. Gwneir gwaith dilynol ar gynnydd y Cyngor yn erbyn y cynnig ar gyfer gwella a wnaed yn yr Asesiad Corfforaethol yn uniongyrchol fel rhan o'r gwaith y byddwn yn ei wneud ar yr Asesiad Corfforaethol yn ystod 2015-16.

26 Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn gwneud argymhellion a all fod yn berthnasol i gynghorau yn ei Adroddiadau Cenedlaethol ar Lywodraeth Leol. Ceir rhestr o argymhellion perthnasol mewn adroddiadau a gyhoeddwyd yn 2014-15 yn Atodiad 8.

27 Nodir argymhellion a wnaed gan AGGCC ac Estyn yn ystod y flwyddyn isod.

| AGGCC | |
|---|---|
| Dylai'r Cyngor wneud y canlynol: | |
| Maes i'w Wella 1 | parhau i leihau nifer yr achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal; |
| Maes i'w Wella 2 | parhau i wella argaeledd taliadau uniongyrchol i blant ac oedolion; |
| Maes i'w Wella 3 | gweithio â chydweithwyr iechyd i sicrhau bod plant a phobl ifanc ag anghenion iechyd meddwl yn cael gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed priodol i ddiwallu eu hanghenion; |
| Maes i'w Wella 4 | gwella nifer yr asesiadau oedolion sy'n gofalu; |
| Maes i'w Wella 5 | adolygu trefniadau comisiynu gwasanaethau ar gyfer oedolion ag anghenion iechyd meddwl; |
| Maes i'w Wella 6 | sicrhau bod adolygiadau plant mewn angen yn cael eu cynnal yn unol ag amserlenni statudol; |
| Maes i'w Wella 7 | gwella'r anghysonderau yn ansawdd asesiadau plant sy'n derbyn gofal; |
| Maes i'w Wella 8 | parhau i godi ymwybyddiaeth o argaeledd taliadau uniongyrchol; |
| Maes i'w Wella 9 | gwella perfformiad o ran nifer yr adolygiadau statudol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal; |
| Maes i'w Wella 10 | gwella perfformiad i sicrhau bod gan blant sy'n derbyn gofal gynlluniau addysg personol. |
| Maes i'w Wella 11 | gwella cyfraddau cadw gweithwyr cymdeithasol; |
| Maes i'w Wella 12 | bwrw ymlaen â chynlluniau i recriwtio i'r swyddi uwch arweinwyr a rheolwyr y cytunwyd arnynt yn yr adran. |

| Estyn – Y Bartneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned | |
|---|---|
| A1 | Dylai'r bartneriaeth dysgu oedolion yn y gymuned barhau i weithio tuag at fodloni'r argymhellion arolygu nad aethpwyd i'r afael â nhw'n llawn eto. |

# Adroddiad manwl



# Y defnydd o adnoddau

## Archwiliad o gyfrifon y Cyngor

28 Ar 4 Tachwedd 2014, cyflwynodd yr Archwilydd Cyffredinol Lythyr Archwilio Blynyddol i'r Cyngor. Roedd y llythyr yn crynhoi'r negeseuon allweddol a oedd yn deillio o'i gyfrifoldebau statudol o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a'i gyfrifoldebau adrodd o dan y Cod Ymarfer Archwilio. Rhoddodd yr Archwilydd Cyffredinol farn ddiamod ar ddatganiadau cyfrifyddu'r Cyngor ar 29 Medi 2014 gan gadarnhau eu bod yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol a thrafodion y Cyngor a'r Gronfa Bensiwn. Mae'r Llythyr Archwilio Blynyddol ar gael yn Atodiad 6 o'r adroddiad hwn.

29 Nodir gwybodaeth am incwm, gwariant a lefelau staffio'r Cyngor yn Atodiad 7.

# Llywodraethu

## Cyflwynodd Swyddfa Archwilio Cymru adroddiad ar drefniadau'r Cyngor i helpu i ddiogelu plant ym mis Hydref 2014

30 Rhwng mis Mawrth a mis Mai 2014, cwblhaodd Swyddfa Archwilio Cymru adolygiad o drefniadau sicrwydd ac atebolrwydd y Cyngor ar gyfer sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau diogelu ar waith ac yn cael eu dilyn. Ystyriodd yr astudiaeth yr hyn yr oedd y Cyngor ei hun wedi'i wneud i geisio sicrwydd bod ei drefniadau i helpu i ddiogelu plant yn effeithiol, drwy adolygu'r ffordd y mae'r Cyngor yn cyflawni ei gyfrifoldebau diogelu ar bob lefel: Cabinet, Uwch Dîm Rheoli, Pwyllgor Craffu a swyddogion unigol.

### Roedd y trefniadau llywodraethu, atebolrwydd a rheoli ar gyfer monitro a gyflawnodd y Cyngor ei gyfrifoldebau o ran diogelu plant yn cynnwys rhai gwendidau y mae'n rhaid i'r Cyngor fynd i'r afael â hwy

31 Rhoddodd Bwrdd Lleol Diogelu Plant Caerdydd a'r Fro a sefydlwyd yn ddiweddar y trosolwg ar gyfer diogelu plant yn y ddinas. Pennodd Cynllun Corfforaethol y Cyngor amrywiaeth o gamau gweithredu allweddol ar gyfer ei Wasanaethau Cymdeithasol Plant er mwyn parhau i ddatblygu ac atgyfnerthu rôl a chyfrifoldebau'r Cyngor o ran diogelu a rhianta corfforaethol. Roedd gan y Cyngor Bolisi Amddiffyn Plant a oedd yn nodi egwyddorion allweddol amddiffyn plant yn y ddinas, ac ystyriai'r Cyngor y Ddeddf Cydraddoldeb wrth ddatblygu ei bolisïau a'i weithdrefnau.

32 Bu newid sylweddol yn nhrefniadau rheoli'r Cyngor gyda 12 o uwch reolwyr newydd yn dechrau yn eu swyddi, gan gynnwys Prif Weithredwr, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a Chyfarwyddwr Addysg newydd a'r Swyddog Monitro. O ganlyniad, gwelwyd newid mawr o ran cyfrifoldebau rheoli, strwythur sefydliadol a diwylliant.

33 Nododd canllawiau Llywodraeth Cymru, sef 'Diogelu Plant: Gweithio Gyda'n Gilydd o dan Ddeddf Plant 2004', y dylai awdurdodau lleol nodi uwch swyddog penodol sy'n gyfrifol am hyrwyddo diogelu ym mhob rhan o'r sefydliad. Nid oedd yn glir i bwy yn y Cyngor yr oedd y rôl hon wedi'i rhoi. Ategwyd y diffyg eglurder hwn gan ein harolwg. Fodd bynnag, roeddwn yn ymwybodol bod y Cyngor yn bwriadu creu swydd Swyddog Dynodedig yn yr Adran Addysg er mwyn cydymffurfio â chanllawiau newydd Llywodraeth Cymru ar 'Diogelu Plant mewn Addysg'.

34 Yn yr un modd, o ran eglurder rolau aelodau, roedd llai o ymatebwyr yng Nghymru yn gwybod pwy oedd Cynghorydd arweiniol y Cyngor ar gyfer amddiffyn plant o gymharu â chyfartaledd Cymru. Dangosodd hyn fod angen i'r Cyngor wneud cryn dipyn o waith i atgyfnerthu trefniadau arwain ac atebolrwydd ar gyfer diogelu plant.

35 Roedd y Cyngor yn cymryd camau rheoli risg cynhwysfawr er mwyn ei helpu i gyflawni ei gyfrifoldebau diogelu plant. Roedd strategaeth rheoli risg a grŵp rheoli risg gorfforaethol a oedd yn gyfrifol am oruchwylio gwaith rheoli risg y Cyngor. Fodd bynnag, roedd ymwybyddiaeth ymhlith rheolwyr o'r ffordd yr oedd prosesau rheoli risg yn gweithredu yn amrywio'n fawr ac nid oedd rhai aelodau o staff a gyfwelwyd

yn siŵr sut roedd risgiau adrannol a chorfforaethol yn cael eu monitro a'u hadolygu. Nododd y gofrestr risg fod 'Potential for mismatch between children's needs and capacity to meet them if current trends continue'. Fodd bynnag, ni nododd hyn fod risg benodol i'r Cyngor yn gysylltiedig â diogelu plant.

## Roedd gan drefniadau'r Cyngor ar gyfer monitro a gwerthuso ei gyfrifoldebau diogelu plant rai gwendidau yr oedd y Cyngor yn mynd i'r afael â hwy

36 Roedd y Cyngor yn datblygu systemau newydd ar gyfer llywodraethu gweithgarwch diogelu plant a chraffu arno ond nid oedd y systemau hyn wedi'u rhoi ar waith yn llawn. Roedd trefniadau diogelu'r Cyngor yn destun gwaith a gynlluniwyd gan y Pwyllgor Craffu, er bod y gwaith hwn yn ymwneud â'r agenda gwasanaethau plant ehangach yn hytrach na phrofi trefniadau diogelu corfforaethol. Fe'n hysbyswyd mai un o rolau pwysig Rheolwr Gweithredol newydd yr Uned Ddiogelu fyddai canolbwyntio ar ddatblygu swyddogaeth diogelu annibynnol i'r Cyngor cyfan. Ar adeg ein hasesiad, nid oedd y trefniadau hyn ar waith.

37 Nododd y Cyngor y wybodaeth yr oedd ei hangen arno i wneud gwaith monitro a gwerthuso er mwyn nodi a oedd ei drefniadau ar gyfer diogelu plant yn gweithio'n effeithiol ac roedd wrthi'n creu systemau newydd er mwyn monitro, gwerthuso a herio gwybodaeth a pherfformiad. Roedd gan y Cyngor amserlenni ar gyfer monitro ac adolygu gwybodaeth a pherfformiad mewn perthynas â diogelu plant. Câi'r rhan fwyaf o'r wybodaeth ei chyflwyno bob chwarter, er y câi rhywfaint o wybodaeth benodol ei chyflwyno bob wythnos a châi gwybodaeth uchel ei phroffil ei chyflwyno bob dydd. Nododd yr adolygiad diweddar gan gymheiriaid gyfres o wendidau yn y trefniadau rheoli perfformiad presennol, yr oedd y Cyngor yn mynd i'r afael â hwy.

38 Roedd gan y Cyngor systemau ar waith i recriwtio staff a gwirfoddolwyr yn ddiogel. Nododd y Polisi a'r Weithdrefn Recriwtio a Dethol yr egwyddorion allweddol y bwriadai'r Cyngor eu dilyn mewn perthynas ag unrhyw weithgarwch recriwtio a dethol, a nododd gyfrifoldebau aelodau etholedig a swyddogion. Roedd y polisi yn ymwneud â recriwtio a dethol holl gyflogeion y Cyngor ac fe'i cymeradwywyd i gyrff llywodraethu i'w roi ar waith mewn perthynas â recriwtio cyflogeion mewn ysgolion. Roedd gan yr Adran Adnoddau Dynol dîm recriwtio a oedd yn gyfrifol am y broses recriwtio o'r hysbyseb i'r contract ac a fyddai'n goruchwylio'r broses o benodi a lleoli cyflogeion a'r gwaith o reoli'r broses gydag ysgolion.

39 Fodd bynnag, nodwyd bod ymatebwyr yng Nghaerdydd yn llawer llai ymwybodol o'r ffordd y mae eu rôl/swydd yn cyfrannu at y gwaith o ddiogelu ac amddiffyn plant a phobl ifanc na chyfartaledd yr arolwg. Yn yr un modd, roedd llai o ymatebwyr yn cytuno'n gryf neu'n cytuno bod eu cyfrifoldebau ym maes diogelu ac amddiffyn plant a phobl ifanc wedi cael eu hegluro iddynt pan wnaethant ddechrau yn eu rôl na chyfartaledd yr arolwg.

40 Roedd y Cyngor yn cymryd camau er mwyn cael sicrwydd bod aelodau a staff wedi'u hyfforddi'n briodol ym maes diogelu. Câi staff Gwasanaethau Plant hyfforddiant perthnasol a darperid hyfforddiant i ysgolion ar sail rhaglen flynyddol dreigl. Yn ystod 2013-14, darparodd y Ganolfan Hyfforddiant Gofal Cymdeithasol 46 o ddigwyddiadau hyfforddi unigol mewn perthynas â Diogelu Plant, a oedd yn cynnwys rhaglen hyfforddi gynhwysfawr a gyflwynwyd ar ran y Bwrdd Lleol Diogelu Plant. Daeth y rhai a fu'n bresennol yn y digwyddiadau hyfforddi yn bennaf o'r Adran Gwasanaethau Plant - 79 y cant (341 o unigolion) - a'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol - 16 y cant (151 o unigolion) - a daeth y gweddill o wasanaethau a phartneriaid eraill y Cyngor.

41 Fodd bynnag, nid oedd pob unigolyn a fyddai'n cael budd o'r hyfforddiant hwn yn ei gael ac roedd angen i'r Cyngor sicrhau bod pawb y tu allan i feysydd addysg a gofal cymdeithasol sy'n dod i gysylltiad â phlant yn rheolaidd yn cael yr hyfforddiant hwn. Roedd cyfres o ddigwyddiadau dysgu ar gyfer aelodau etholedig a oedd yn ymdrin ag agweddau penodol ar faes diogelu plant wedi'i darparu'n fisol ers mis Tachwedd 2013. Ar ddyddiad yr adolygiad, roedd 37 o unigolion wedi mynd i'r digwyddiadau briffio nos hyn. Gan nad yw'r hyfforddiant hwn yn orfodol, bu presenoldeb yn isel.

42 Nododd ein harolwg fod y Cyngor ymhell islaw cyfartaledd yr arolwg o ran nifer y bobl a gafodd hyfforddiant ym maes diogelu yn ystod y chwe mis diwethaf.

## Roedd dull y Cyngor o nodi gwelliannau o ran ei drefniadau diogelu a gweithredu arnynt yn cynnwys rhai gwendidau yr oedd y Cyngor yn mynd i'r afael â hwy

43 Roedd gan y Cyngor gynllun archwilio mewnol, ond nid oedd wedi nodi na chytuno sut y byddai'n defnyddio'r adnodd hwn er mwyn rhoi sicrwydd ynglŷn â'i drefniadau diogelu corfforaethol. Gwnaed rhywfaint o waith archwilio penodol gyda'r Adran Gwasanaethau Plant a oedd yn ymwneud ag amddiffyn plant. Fodd bynnag, er bod adroddiadau rheolaidd ar berfformiad Gwasanaethau Plant yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Craffu, a oedd yn cynnwys adran ar faes diogelu, roeddent wedi'u cyfyngu i berfformiad a oedd yn ymwneud ag amddiffyn ac asesu plant. Nid oeddent yn ymdrin â materion diogelu ehangach nac yn rhoi sicrwydd cyffredinol ynglŷn â threfniadau diogelu.

44 Roedd y Cyngor wrthi'n sefydlu rôl graffu estynedig gyda swyddogion adolygu annibynnol a chadeiryddion annibynnol. Roedd y Cyngor wedi cymryd camau i sicrhau ei hun ei fod yn cydymffurfio â gofynion diogelu data mewn perthynas â phlant. Er enghraifft, y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Plant yw Gwarcheidwad Caldicott y Cyngor.

45 Canfu ein harolwg fod llawer llai o ymatebwyr o'r farn bod y Cyngor yn delio'n effeithiol â digwyddiadau penodol yn ymwneud â diogelu ac amddiffyn plant a phobl ifanc. Yn yr un modd, roedd cyfran sylweddol is na chyfartaledd yr arolwg yn cytuno'n gryf neu'n cytuno bod y Cyngor yn hysbysu'r holl rieni am y ffordd y câi eu plant eu diogelu a'u hamddiffyn wrth ddefnyddio gwasanaethau'r Cyngor ac ysgolion.

# Perfformiad

## Parhaodd Estyn i fonitro cynnydd y Cyngor ym maes gwasanaethau addysg i blant a phobl ifanc yn dilyn arolygiad ym mis Ionawr 2011

46 Ym mis Chwefror 2014 cynhaliodd Estyn ymweliad monitro er mwyn adolygu cynnydd y Cyngor yn erbyn argymhellion a wnaed fel rhan o arolygiad o wasanaethau addysg y Cyngor ar gyfer plant a phobl ifanc ym mis Ionawr 2011. Daeth Estyn i'r casgliad nad oedd y Cyngor wedi gwneud cynnydd digonol o ran yr argymhellion yn dilyn yr arolygiad craidd ym mis Ionawr 2011. O ganlyniad, diwygiodd Estyn yr argymhellion o'r arolygiad gwreiddiol yn 2011. Yr argymhellion diwygiedig oedd:

- a gwella safonau, yn arbennig yng Nghyfnod Allweddol 4;
- b lleihau nifer y disgyblion sy'n cael eu gwahardd a chyfran y bobl ifanc ôl-16 nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant;
- c sicrhau bod y trefniadau ar gyfer darparu gwasanaethau gwella ysgolion yn herio ac yn cefnogi pob ysgol yn effeithiol, er mwyn gwella safonau i ddysgwyr ym mhob cyfnod allweddol;
- ch gwella effeithiolrwydd gwaith cynllunio ar y cyd ar draws yr ystod o waith partneriaeth;
- d gwella prosesau rheoli perfformiad er mwyn sicrhau dull cyson o gyflawni amcanion; a
- dd gwella'r broses o graffu ar wasanaethau addysg a gwaith partneriaeth yr awdurdod lleol.

47 Wedyn, cynhaliodd Estyn ymweliad gwelliant sylweddol ym mis Mawrth 2015 a ganolbwyntiodd ar adolygu'r cynnydd roedd y Cyngor wedi'i wneud yn erbyn tri o'r chwe argymhelliad diwygiedig a ddeilliodd o ymweliad monitro 2014.

48 Canfu Estyn, ers yr ymweliad monitro ym mis Chwefror 2014, fod y Cyngor wedi dechrau atgyfnerthu ei gapasiti i ddarparu gwasanaethau gwella ysgolion a'i fod wedi gwella ei brosesau rheoli perfformiad a'i drefniadau craffu ar gyfer gwasanaethau addysg i blant a phobl ifanc. Fodd bynnag, roedd y gwelliannau yn dal i fod yn gymharol ddiweddar ac roedd yr awdurdod lleol yn dal i wynebu llawer o heriau sylweddol, yn arbennig o ran gwella perfformiad mewn mesurau allweddol mewn lleiafrif o'i ysgolion uwchradd.

49 Bydd Estyn yn cynnal rhagor o ymweliadau monitro yn ystod 2015-16 a byddwn yn parhau i gydgysylltu ag ef er mwyn llywio ein gwaith dilynol ar yr asesiad corfforaethol.

## Roedd Partneriaethau Dysgu Oedolion yn y Gymuned Caerdydd a Bro Morgannwg wedi gwneud cynnydd digonol mewn perthynas â'r argymhellion o'i harolygiadau craidd ar wahân. Ers hynny mae'r ddwy Bartneriaeth wedi uno i ffurfio Partneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned Caerdydd a'r Fro ac nid ystyrir bod angen unrhyw weithgarwch dilynol pellach arni

50 Yn 2013, cynhaliodd Estyn ddau arolygiad craidd o Bartneriaeth Dysgu Oedolion Caerdydd a Phartneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned Bro Morgannwg. Gwnaeth Estyn argymhellion mewn perthynas â Phartneriaeth Dysgu Oedolion Caerdydd.

51 Roedd yr argymhellion ar gyfer Cyngor Caerdydd yn dilyn arolygiad Estyn fel a ganlyn:

a gwella cyfraddau llwyddo i bob dysgwr;

b gwella arweinyddiaeth strategol a phrosesau rheoli a chydgysylltu darpariaeth dysgu oedolion yn y gymuned yng Nghaerdydd er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth honno yn cyd-fynd yn agosach â blaenoriaethau lleol a chenedlaethol a bod pob rheolwr gweithredol yn deall ei rolau a'i flaenoriaethau;

c gwella ansawdd y cwricwlwm a'r ddarpariaeth a gynigir i ddysgwyr, yn enwedig yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig ac i grwpiau dysgwyr â blaenoriaeth;

ch gwella'r trefniadau ar gyfer hunanasesu a gwelliannau dilynol gan y bartneriaeth yn gyflymach;

d gwella ansawdd addysgu a sicrhau bod pob tiwtor yn deall ei rôl broffesiynol yn llawn;

dd gwella'r broses o nodi dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol, eu hasesu'n gynnar a'u cynorthwyo a'r broses ddilynol o fonitro effaith y cymorth hwn; a

e gwella'r cymorth sydd ar gael i ddysgwyr â phroblemau iechyd a phroblemau personol sy'n llesteirio eu cynnydd.

52 Ers i'r arolygiadau craidd ar wahân gael eu cynnal, mae'r ddwy bartneriaeth wedi uno i greu un Bartneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned i Gaerdydd a'r Fro.

53 Ym mis Ionawr 2015, cynhaliodd Estyn arolygiad dilynol o Gydbartneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned Caerdydd a'r Fro, yr ystyriwyd ei bod wedi gwneud cynnydd digonol o ran yr argymhellion o'u harolygiadau craidd ar wahân. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd angen unrhyw weithgarwch dilynol pellach ar

Bartneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned Caerdydd a'r Fro. Bydd Estyn yn monitro cynnydd yn erbyn yr argymhellion yn ystod ymweliadau cyswllt â'r bartneriaeth.

54 Mae'r adroddiad ar gael ar wefan Estyn.

## Bu 2013-14 yn flwyddyn heriol ac anodd i'r adran gwasanaethau cymdeithasol ond cafwyd asesiad clir o'r heriau a oedd yn ei hwynebu, yn enwedig o ran recriwtio a chadw staff a gwella perfformiad

55 Cyhoeddodd AGGCC ei Hadolygiad a'i Gwerthusiad Blynyddol o Berfformiad y Cyngor yn 2013-14 ym mis Hydref 2014 a nododd fod y flwyddyn wedi bod yn un heriol ac anodd o ran diwallu anghenion amrywiol poblogaeth fawr. Roedd adroddiad Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol y Cyngor yn adlewyrchu darlun cymysg o ran gwella a pherfformiad. Roedd asesiad clir o'r heriau sy'n wynebu Caerdydd yn ystod y flwyddyn i ddod a pherfformiad gwell mewn meysydd megis cynllunio ac adolygu gofal.

56 Roedd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Plant wedi cynnal trosolwg strategol o wasanaethau er mwyn deall meysydd i'w gwella a'u datblygu. Arweiniodd hyn at ymagwedd fwy realistig tuag at ddyrannu adnoddau mewn cyfnod o ostyngiadau cyllidebol. Câi'r ymagwedd hon ei hategu drwy benodi Cyfarwyddwr Cynorthwyol ar gyfer Gwasanaethau Plant a swydd ychwanegol rheolwr gweithredol comisiynu strategol ar gyfer gwasanaethau oedolion.

57 Roedd tystiolaeth yn adroddiad y Cyfarwyddwr fod y Cyngor wedi cymryd camau er mwyn paratoi ar gyfer effaith Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Roedd gwasanaethau integredig â Chyngor Bro Morgannwg a Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn cael eu hatgyfnerthu.

58 Roedd cefnogaeth gorfforaethol gref i ddarparu gwasanaethau cymdeithasol a oedd wedi arwain at y Cyngor yn atgyfnerthu'r strwythur rheoli ac yn rhoi arian ychwanegol i'r gyfarwyddiaeth. Er bod rhai meysydd ar gyfer gwneud arbedion wedi'u nodi yn adroddiad y cyfarwyddwr, nid oedd yn glir a oedd y rhain yn ddigonol i gyflawni'r holl arbedion angenrheidiol.

59 Nododd adroddiad y Cyfarwyddwr y weledigaeth ar gyfer ailstrwythuro gwasanaethau plant. Er bod rhai dangosyddion perfformiad yn awgrymu ei fod wedi gwella, disgrifiodd sawl un arall berfformiad a oedd yn waeth nag awdurdodau cymaradwy eraill ac islaw cyfartaledd Cymru.

60 Roedd tystiolaeth o ymgynghori â phobl Caerdydd a lywiodd strategaethau'r Cyngor ar gyfer datblygu gwasanaethau ac a nododd feysydd yr oedd angen eu gwella.

61 Roedd y flwyddyn hon wedi bod yn un heriol i'r adran gofal cymdeithasol oedolion.

Roedd penodi Cyfarwyddwr i'r adran iechyd a gofal cymdeithasol wedi sicrhau gwelliannau mewn rhai meysydd perfformiad. Fel gyda gwasanaethau plant roedd dull strategol o adolygu'r gwasanaethau gofal cymdeithasol oedolion a ddarperir gan y Cyngor wedi'i fabwysiadu. Nododd yr adolygiad feysydd i'w gwella a bod angen ailstrwythuro timau er mwyn gweithio'n fwy effeithiol.

62 Mae'r Adolygiad a'r Gwerthusiad Blynyddol o Berfformiad y Cyngor yn 2013-14 ar gael ar www.cssiw.org.uk.

63 Cynhelir arolygiad pellach gan AGGCC yn ystod 2015-16 a byddwn yn parhau i gydgysylltu â hi er mwyn llywio ein gwaith dilynol ar yr asesiad corfforaethol.

## Cynhaliodd AGGCC arolygiad cenedlaethol o drefniadau diogelu a chynllunio gofal ar gyfer plant sy'n derbyn gofal ac unigolion sy'n gadael gofal sy'n ymddwyn mewn ffordd sy'n eu gwneud yn agored i niwed neu a allai beri risg

64 Yn ystod 2014-15, cynhaliodd AGGCC arolygiad o drefniadau diogelu a chynllunio gofal ar gyfer plant sy'n derbyn gofal ac unigolion sy'n gadael gofal sy'n ymddwyn mewn ffordd sy'n eu gwneud yn agored i niwed neu a allai beri risg. Cynhaliwyd yr arolygiad fel rhan o raglen arolygiadau thematig cenedlaethol AGGCC. Cynhaliwyd y fethodoleg ar gyfer yr adolygiad ym mhob awdurdod lleol ledled Cymru, rhwng mis Ionawr a mis Mai 2014. Nod yr arolygiad cenedlaethol oedd asesu ansawdd y gwaith o gynllunio gofal ledled Cymru a ph'un a oedd yn gwneud y canlynol yn effeithiol:

- a cefnogi a diogelu plant sy'n derbyn gofal ac unigolion sy'n gadael gofal;
- b nodi a rheoli ymddygiad sy'n gwneud plant sy'n derbyn gofal ac unigolion sy'n gadael gofal yn agored i niwed ac yn peri risg iddynt;
- c hyrwyddo arfer sy'n seiliedig ar hawliau a llais y plentyn;
- ch hyrwyddo canlyniadau gwell i blant sy'n derbyn gofal ac unigolion sy'n gadael gofal; a
- d hyrwyddo cydymffurfiaeth â pholisïau a chanllawiau.

65 Gellir gweld canfyddiadau'r arolygiadau o awdurdodau lleol unigol ac adroddiad trosolwg cenedlaethol AGGCC ar wefan AGGCC.

## Ar y cyfan, roedd y Cyngor yn llwyddo i gyrraedd safon dda neu'n uwch mewn perthynas â'i wasanaethau iechyd yr amgylchedd, ond oherwydd toriadau mewn adnoddau a safbwyntiau negyddol ynghylch ansawdd gwasanaethau presennol a'r broses o'u rheoli, byddai'r Cyngor yn ei chael hi'n anodd cyflawni dyletswyddau statudol newydd sy'n diogelu'r cyhoedd a'r amgylchedd yn y dyfodol

66 Ym mis Rhagfyr 2014, gwnaethom adolygu gwasanaethau iechyd yr amgylchedd y Cyngor fel rhan o un o'n hastudiaethau Cymru gyfan. Ystyriodd yr astudiaeth effaith toriadau mewn adnoddau ar allu gwasanaethau iechyd yr amgylchedd y Cyngor i gyflawni eu rhwymedigaethau statudol.

67 Daeth ein hadolygiad i'r casgliad bod y Cyngor, ar y cyfan, yn llwyddo i gyrraedd safon dda neu'n uwch mewn perthynas â'i wasanaethau iechyd yr amgylchedd, ond oherwydd toriadau mewn adnoddau a safbwyntiau cymysg ynghylch ansawdd gwasanaethau presennol, y byddai'r Cyngor yn ei chael hi'n anodd cyflawni dyletswyddau statudol newydd sy'n diogelu'r cyhoedd a'r amgylchedd yn y dyfodol'.

68 Wrth ddod i'n casgliad, gwnaethom nodi'r canfyddiadau canlynol:

a roedd gan gynghorau lawer o ddyletswyddau statudol ym maes iechyd yr amgylchedd ond nid oedd gwariant yn cael ei ddiogelu yn ystod y cyfnod presennol o galedi ariannol, a oedd yn ei gwneud hi'n anos cyflawni blaenoriaethau strategol cenedlaethol;

b roedd y Cyngor yn darparu'r rhan fwyaf o'i wasanaethau iechyd yr amgylchedd i'r lefelau uchaf, fel y'u bernir yn erbyn y Safonau Arfer Gorau;

c rhwng 2011-12 a 2013-14 bu gostyngiad yng nghyllidebau a niferoedd staff iechyd yr amgylchedd y Cyngor ond roedd lefel y gostyngiad islaw cyfartaledd cynghorau Cymru;

ch roedd y sawl a ymatebodd i'n harolwg yn negyddol ar y cyfan am safon y gwasanaeth iechyd yr amgylchedd y maent yn ei dderbyn ar hyn o bryd ac roedd ymwybyddiaeth isel o berfformiad presennol neu gynlluniau ar gyfer y dyfodol; ac

d roedd dyletswyddau statudol newydd yn cael eu cyflwyno ym maes iechyd yr amgylchedd y byddai'r Cyngor yn ei chael hi'n anodd eu cyflawni.

## Rhoddodd tîm perfformiad canolog y Cyngor nifer o reolaethau ar waith er mwyn helpu i sicrhau y câi gwybodaeth gywir am berfformiad ei chyhoeddi, ond roedd nifer o wendidau o hyd mewn systemau sylfaenol

69 Gwnaethom gynnal adolygiad o ansawdd data ym mis Ionawr 2015 er mwyn cael sicrwydd bod systemau mesur perfformiad y Cyngor yn gadarn a bod y data perfformiad sy'n deillio ohonynt yn gywir. Diben yr adolygiad oedd nodi a oedd systemau mesur perfformiad yn addas at y diben, er mwyn rhoi sicrwydd bod y data a oedd yn deillio ohonynt yn debygol o fod yn gywir, ar yr amod bod y systemau yn cael eu defnyddio'n gywir.

70 Archwiliwyd wyth dangosydd perfformiad yn fanwl a'r systemau sylfaenol a ddefnyddiwyd i lunio'r canlyniadau. Roedd pob un o'r dangosyddion perfformiad a archwiliwyd yn Ddangosyddion Strategol Cenedlaethol neu'n Fesurau Atebolrwydd Cyhoeddus, y mae'n ofynnol i bob cyngor gyflwyno canlyniadau yn eu herbyn. Ni fu'n bosibl i ni adolygu unrhyw fesurau perfformiad lleol am nad oedd unrhyw fesurau o'r fath ar waith yn ystod y cyfnod a gwmpaswyd gan yr adolygiad.

71 Cyfrifir dangosyddion perfformiad yn y Cyngor gan ddefnyddio gwybodaeth a gynhyrchir o nifer o systemau sylfaenol ar lefel gwasanaeth.

72 Nodwyd gennym fod y Cyngor yn mynd ati i ddefnyddio ei dîm perfformiad canolog i asesu a dilysu gwybodaeth benodol am berfformiad cyn ei chyhoeddi. Datblygwyd y rheolaeth ganolog hon er mwyn lleihau'r risg y caiff dangosyddion perfformiad anghywir eu cyhoeddi. Cynhaliai'r tîm perfformiad nifer o brosesau. Yn benodol: defnyddiai gofrestr risg i nodi dangosyddion perfformiad yr oedd yn debygol iawn y byddai angen eu hasesu'n fanwl; adolygai a diwygiai, lle y byddai'n briodol, y cyfrifiadau a gyflwynwyd gan y sawl a luniodd y dangosyddion perfformiad; a chyflwynai sesiynau adborth i'r sawl a luniodd y dangosyddion perfformiad.

73 O'r wyth dangosydd perfformiad a adolygwyd yn fanwl, roedd pedwar yn foddhaol. O ran y pedwar a oedd yn weddill, nodwyd y gwendidau canlynol:

a ni châi gwybodaeth ei lanlwytho i un o'r systemau data yn amserol;

b roedd adroddiadau a ddefnyddiwyd i echdynnu data a chyfrifo dangosyddion perfformiad yn cynnwys hepgoriadau a chofnodion dyblygedig; ac

c ni chynhwyswyd data yn y cyfrifiad o un dangosydd perfformiad am fod ei ddiffiniad, o bosibl, wedi'i gamddehongli.

## Sefydlodd y Cyngor systemau da i weinyddu taliadau tai yn ôl disgresiwn a rheoli effaith diwygiadau lles er y gellid gwneud rhai taliadau pellach er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth hyd yn oed yn fwy ymatebol i anghenion ymgeiswyr

74 Roedd Deddf Diwygio Lles 2012 yn dynodi newid mawr i'r ffordd y caiff budd-daliadau eu gweinyddu a'u dosbarthu a byddai'n cael effaith sylweddol ar lawer o ddinasyddion. Ym mis Ebrill 2011, dechreuodd Llywodraeth y DU ar raglen ddiwygio a fyddai'n arwain at gyflwyno'r Credyd Cynhwysol fesul cam rhwng mis Hydref 2013 a 2017. Un o brif nodweddion cynlluniau Llywodraeth y DU oedd y newidiadau i Fudd-dal Tai, y bwriadwyd iddynt leihau gwariant blynyddol tua £2.3 biliwn. Byddai'r newidiadau hyn yn golygu y byddai miloedd o gartrefi ym Mhrydain Fawr yn cael llai o fudd-daliadau, gan arwain at ddewisiadau anodd iddynt am y ffordd y maent yn defnyddio eu harian ac yn ymdopi'n ariannol o ddydd i ddydd.

75 Ym mis Ionawr 2015, cyhoeddodd Archwilydd Cyffredinol Cymru ei adroddiad ar ba mor dda roedd cynghorau yn rheoli effaith newidiadau diwygio lles ar denantiaid tai cymdeithasol yng Nghymru. Adolygodd ei adroddiad y broses o reoli a defnyddio taliadau tai yn ôl disgresiwn gan gynghorau yng Nghymru a daeth i'r casgliad fod anghysondebau a gwendidau sylweddol yn y broses o ddyrannu, dosbarthu, gweinyddu a defnyddio'r taliadau hyn. Gwnaethom waith dilynol mewn cynghorau unigol.

76 Canfu ein hadolygiad fod y Cyngor yn ei gwneud yn hawdd i gleientiaid wneud cais am daliadau tai yn ôl disgresiwn. Roedd ganddo dudalen we hygyrch ar gyfer taliadau tai yn ôl disgresiwn a ffurflen gais y gellid ei lawrlwytho. Fodd bynnag, gofynnai'r Cyngor am gryn dipyn o wybodaeth ac roedd angen i gwsmer gwblhau ffurflen 10 tudalen fanwl. Gofynnai'r ffurflen gais am wybodaeth yr oedd ei hangen er mwyn gwneud penderfyniad, ond oherwydd ei hyd a'i chymhlethdod, gallai beri i unigolyn a oedd yn agored i niwed beidio â gwneud cais am daliadau tai yn ôl disgresiwn. Gofynnai'r ffurflen am amrywiaeth eang o wybodaeth ategol, er enghraifft, incwm a gwariant cynhwysfawr, taliadau ffôn symudol ac adloniant cartref yn ogystal â gwybodaeth am y rhesymau pam y penderfynodd ymgeisydd rentu ei gartref. Fodd bynnag, câi'r wybodaeth a gesglid gan y Cyngor ei defnyddio gan Ganolfan Gynghori'r Cyngor lle y câi ymgeiswyr eu hysbysu am ffyrdd eraill o leihau baich newidiadau diwygio lles. Wedyn, câi taliadau tai yn ôl disgresiwn eu defnyddio fel yr opsiwn olaf, gan ei gwneud yn bosibl i'r arian fod ar gael i'r rhai mwyaf agored i niwed.

77 Nid oedd y Cyngor wedi cyhoeddi strategaeth na pholisi lles a oedd yn nodi'n glir flaenoriaethau'r Cyngor ar gyfer defnyddio taliadau tai yn ôl disgresiwn a'r ffordd roedd yn cynorthwyo pobl yr effeithiwyd arnynt gan y diwygiadau lles. Roedd dogfen gynhwysfawr a oedd yn nodi sut y byddai'r Cyngor yn asesu cais yr ymgeisydd am daliadau tai yn ôl disgresiwn a sut y gellid ei defnyddio i helpu'r ymgeisydd. Roedd hefyd ddolen i dudalen a oedd yn ymdrin â'r diwygiadau lles ar wefan y Cyngor. Nodwyd gennym, er bod Strategaeth Digartrefedd y Cyngor yn

cyfeirio at daliadau tai yn ôl disgresiwn, fod y Strategaeth yn bedair blwydd oed ac nad oedd yn rhoi manylion am ddull y Cyngor o ymdrin â thaliadau tai yn ôl disgresiwn.

78 Roedd gan y Cyngor systemau ar waith i fonitro'r swm a wariwyd yn erbyn swm yr arian a ddarparwyd gan yr Adran Gwaith a Phensiynau. Roedd y Cyngor hefyd yn monitro faint o bobl a oedd wedi'u cynorthwyo a faint o gyllideb a oedd ar ôl i roi cymorth i ymgeiswyr. Roedd y Cyngor yn monitro effaith taliadau tai yn ôl disgresiwn a phwy oedd wedi cael cymorth, gan gynnwys y tenantiaid tai cymdeithasol hynny yr effeithiwyd arnynt gan y Cymhorthdal Ystafell Sbâr a'r cap ar fudd-daliadau. Roedd y Cyngor yn monitro nifer y landlordiaid a oedd wedi'u cynorthwyo lle roedd y wybodaeth hon ar gael. O ganlyniad i hyn roedd y Cyngor yn gallu sicrhau bod pob sector a maes wedi'i gwmpasu'n dda. Fodd bynnag, nid oedd yn glir sut y câi gwybodaeth am berfformiad ei defnyddio i ddylanwadu ar bolisi.

79 Roedd y Cyngor wedi talu £988,158 o'i ddyraniad ariannol o £1,175,856 gan yr Adran Gwaith a Phensiynau, sef 84 y cant o'i ddyraniad, ar ddiwedd mis Tachwedd 2014. Roedd y Cyngor wedi ariannu 1,989 o ymgeiswyr, a ddangosodd fod y Cyngor yn gwneud ymdrech wirioneddol i ddefnyddio taliadau tai yn ôl disgresiwn i roi cymorth i'r rhai yr oedd ei angen arnynt.

## Roedd y Cyngor yn mynd ati mewn ffordd gadarnhaol i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle drwy gymeradwyo Strategaeth Sgiliau Iaith Gymraeg newydd a sefydlodd Weithgor Cymraeg newydd a oedd yn cynnwys aelodau o bob plaid wleidyddol

80 Crëwyd rôl Comisiynydd y Gymraeg (y Comisiynydd) gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Daeth pwerau newydd i orfodi safonau ar sefydliadau i rym drwy is-ddeddfwriaeth ar 31 Mawrth 2015. Parhaodd y Comisiynydd i adolygu cynlluniau iaith Gymraeg yn rhinwedd y pwerau a etifeddwyd o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993.

81 Bu'r Comisiynydd yn gweithio gyda phob cyngor yng Nghymru i arolygu cynlluniau iaith a rhoi cyngor ar y broses o'u rhoi ar waith. Mae cyfrifoldeb ar gynghorau i ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yn Gymraeg yn unol â'r ymrwymiadau yn eu cynlluniau iaith. Mae pob cyngor wedi ymrwymo i ddarparu adroddiad monitro blynyddol i'r Comisiynydd yn amlinellu ei berfformiad wrth weithredu'r cynllun iaith. Mae'r Comisiynydd yn dadansoddi pob adroddiad monitro, yn ymateb yn ffurfiol ac yn casglu rhagor o wybodaeth yn ôl yr angen.

82 Nododd y Comisiynydd fod Gweithgor newydd ar gyfer y Gymraeg, a oedd yn cynnwys aelodau o bob plaid wleidyddol, wedi'i sefydlu yn dilyn cynhadledd Caerdydd Ddwyieithog.

83 Yn dilyn cymeradwyo Strategaeth Sgiliau Iaith Gymraeg Gorfforaethol ddiwygiedig dechreuodd y Cyngor ddadansoddi ei ofynion o ran sgiliau ieithyddol, gan asesu 400 o swyddi rheng flaen yn ystod y flwyddyn. Nid oedd hyfforddiant iaith Gymraeg yn cael ei gynnig yn fewnol mwyach. Fodd bynnag, roedd cymorth yn cael ei roi er mwyn galluogi staff rheng flaen i ddilyn cyrsiau allanol. Cwblhaodd 196 o unigolion hyfforddiant yn ystod 2013-14, gyda 101 o staff llyfrgelloedd a phob cyfarwyddwr corfforaethol newydd yn dilyn cyrsiau ymwybyddiaeth o'r Gymraeg. Penderfynwyd y dylid darparu cyrsiau o'r fath drwy'r sefydliad cyfan yn y dyfodol.

84 Cwblhawyd glasbrint manwl ar gyfer datblygu System Rheoli Cydberthnasau â Chwsmeriaid, a oedd yn golygu bod y Cyngor yn gallu llunio cronfa ddata o ddewis iaith ei ddefnyddwyr. Atgyfnerthodd y Cyngor ei bartneriaeth â Menter Caerdydd. Cafodd y fenter iaith gontract i gynnig darpariaeth hamdden sylweddol drwy gyfrwng y Gymraeg i blant a'u teuluoedd. Trefnwyd 17 o glybiau chwaraeon wythnosol, ac am fod y galw yn parhau i fod yn uchel, y gobaith oedd y gellir ehangu'r ddarpariaeth bresennol yn ystod y flwyddyn i ddod.

# Atodiad 1 – Statws yr adroddiad hwn

O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur) mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal asesiad gwella blynyddol, a chyhoeddi adroddiad gwella blynyddol, ar gyfer pob awdurdod gwella yng Nghymru. Mae'r gofyniad hwn yn cwmpasu cynghorau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

Lluniwyd yr adroddiad hwn gan staff Swyddfa Archwilio Cymru ar ran yr Archwilydd Cyffredinol er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 24 o'r Mesur. Mae'r adroddiad hefyd yn cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 19 i gyflwyno adroddiad sy'n ardystio ei fod wedi cynnal asesiad gwella o dan adran 18 ac yn nodi a yw o'r farn, o ganlyniad i'w archwiliad o'r cynllun gwella o dan adran 17, fod yr awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran cynllunio gwelliant o dan adran 15.

Mae gan awdurdodau gwella ddyletswydd gyffredinol i 'wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni eu swyddogaethau'. Diffinnir awdurdodau gwella fel cynghorau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

Yr asesiad gwella blynyddol yw'r prif ddarn o waith sy'n galluogi'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei ddyletswyddau. Mae'r asesiad gwella yn asesiad sy'n edrych i'r dyfodol o'r tebygolrwydd y bydd awdurdod yn cydymffurfio â'i ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus. Mae hefyd yn cynnwys asesiad ôl-weithredol i nodi a yw awdurdod wedi cyflawni'r gwelliannau a gynlluniwyd ganddo er mwyn llunio barn ar hanes yr awdurdod o ran sicrhau gwelliant. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn crynhoi ei waith archwilio ac asesu mewn adroddiad gwella blynyddol cyhoeddedig ar gyfer pob awdurdod (o dan adran 24).

O dan rai amgylchiadau, gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd gynnal arolygiadau arbennig (o dan adran 21), y cyflwynir adroddiad arnynt i'r awdurdod a'r Gweinidogion, ac y gall eu cyhoeddi (o dan adran 22). Un o weithgareddau atodol pwysig yr Archwilydd Cyffredinol yw cydgysylltu gwaith asesu a gwaith rheoliadol (sy'n ofynnol o dan adran 23), sy'n ystyried rhaglen waith gyffredinol pob rheoleiddiwr perthnasol mewn awdurdod gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd ystyried gwybodaeth a rennir gan reoleiddwyr perthnasol (o dan adran 33) yn ei asesiadau.

# Atodiad 2 – Archwiliad o Gynllun Gwella 2014-15 Cyngor Dinas Caerdydd

## Tystysgrif

Ardystiaf fy mod wedi archwilio Cynllun Gwella Cyngor Caerdydd (y Cyngor) yn unol ag adran 17 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur) a'm Cod Ymarfer Archwilio.

O ganlyniad i'm harchwiliad, rwyf o'r farn bod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 15(6) i (9) o'r Mesur ac wedi gweithredu yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru yn ddigonol i gyflawni ei ddyletswyddau.

## Priod gyfrifoldebau'r Cyngor a'r Archwilydd Cyffredinol

O dan y Mesur, mae'n ofynnol i'r Cyngor baratoi a chyhoeddi Cynllun Gwella sy'n disgrifio ei gynlluniau i gyflawni ei ddyletswyddau i:

- wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni ei swyddogaethau;
- gwneud trefniadau i sicrhau y caiff ei amcanion gwella eu cyflawni; a
- gwneud trefniadau i arfer ei swyddogaethau er mwyn sicrhau y cyrhaeddir unrhyw safon perfformiad a nodir gan Weinidogion Cymru.

Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi ei Gynllun Gwella cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol ar ôl dechrau'r flwyddyn ariannol y mae'n ymwneud â hi, neu ar ôl y cyfryw ddyddiad arall ag y gall Gweinidogion Cymru ei nodi drwy orchymyn.

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am baratoi'r Cynllun Gwella ac am y wybodaeth a nodir ynddo. Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor ystyried canllawiau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru wrth baratoi a chyhoeddi ei gynllun.

Fel archwilydd y Cyngor, mae'n ofynnol i mi, o dan adrannau 17 a 19 o'r Mesur, archwilio'r Cynllun Gwella, ardystio fy mod wedi gwneud hynny a chyflwyno adroddiad i nodi a wyf o'r farn bod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau i baratoi a chyhoeddi Cynllun Gwella yn unol â'r gofynion statudol a nodir yn adran 15 a chanllawiau statudol.

## Cwmpas yr archwiliad o'r Cynllun Gwella

At ddibenion fy ngwaith archwilio, ar yr amod bod awdurdod yn bodloni ei ofynion statudol, byddaf yn derbyn ei fod hefyd wedi cydymffurfio â chanllawiau statudol Llywodraeth Cymru yn ddigonol i gyflawni ei ddyletswyddau.

Ar gyfer yr archwiliad hwn nid yw'n ofynnol i mi lunio barn ar gyflawnrwydd na chywirdeb y wybodaeth nac ar b'un a ellir cyflawni'r Cynllun Gwella a gyhoeddwyd gan y Cyngor. Efallai y bydd gwaith asesu arall y byddaf yn ei wneud o dan adran 18 o'r Mesur yn ystyried y materion hyn. Felly, roedd fy archwiliad o Gynllun Gwella'r Cyngor yn cynnwys adolygu'r cynllun er mwyn nodi a oedd yn cynnwys elfennau a ragnodir mewn deddfwriaeth. Asesais hefyd a oedd y trefniadau ar gyfer cyhoeddi'r cynllun yn cydymffurfio â gofynion y ddeddfwriaeth ac a oedd y Cyngor wedi ystyried canllawiau statudol wrth baratoi a chyhoeddi ei gynllun.

Ni ellir dibynnu ar y gwaith a wnaed gennyf er mwyn cyflwyno adroddiadau a gwneud argymhellion yn unol ag adrannau 17 a 19 o'r Mesur yn unig i nodi pob gwendid neu gyfle i wella.

Huw Vaughan Thomas
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**

COPI I: Lesley Griffiths, Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth
Steve Barry, Rheolwr
Sam Spruce, Arweinydd Archwilio Perfformiad

# Atodiad 3 – Archwiliad asesiad o berfformiad 2013-14 Cyngor Dinas Caerdydd

## Tystysgrif

Ardystiaf fy mod wedi archwilio asesiad Cyngor Caerdydd (y Cyngor) o'i berfformiad yn 2013-14 yn unol ag adran 17 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur) a'm Cod Ymarfer Archwilio.

O ganlyniad i'm harchwiliad, rwyf o'r farn bod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau o dan adrannau 15(2), (3), (8) a (9) o'r Mesur ac wedi gweithredu yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru yn ddigonol i gyflawni ei ddyletswyddau.

## Priod gyfrifoldebau'r Cyngor a'r Archwilydd Cyffredinol

O dan y Mesur, mae'n ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi asesiad bob blwyddyn sy'n disgrifio ei berfformiad o ran:

- cyflawni ei ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni eu swyddogaethau;
- cyflawni'r amcanion gwella y mae wedi'u pennu iddo'i hun;
- drwy gyfeirio at ddangosyddion perfformiad a nodir gan Weinidogion Cymru a dangosyddion perfformiad hunanosodedig; a
- chyrraedd unrhyw safonau perfformiad a nodir gan Weinidogion Cymru a safonau perfformiad hunanosodedig.

Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi ei asesiad cyn 31 Hydref yn y flwyddyn ariannol sy'n dilyn y flwyddyn ariannol y mae'r wybodaeth yn ymwneud â hi, neu erbyn y cyfryw ddyddiad arall ag y gall Gweinidogion Cymru ei nodi drwy orchymyn.

Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor ystyried canllawiau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru wrth gyhoeddi ei asesiad.

Fel archwilydd y Cyngor, mae'n ofynnol i mi, o dan adrannau 17 a 19 o'r Mesur, gynnal archwiliad er mwyn nodi a yw'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswydd i gyhoeddi asesiad o berfformiad, ardystio fy mod wedi gwneud hynny, a chyflwyno adroddiad i nodi a wyf o'r farn bod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau yn unol â'r gofynion statudol a nodir yn adran 15 a chanllawiau statudol.

## Cwmpas yr archwiliad

At ddibenion fy ngwaith archwilio, ar yr amod bod awdurdod yn bodloni ei ofynion statudol, byddaf yn derbyn ei fod hefyd wedi cydymffurfio â chanllawiau statudol Llywodraeth Cymru yn ddigonol i gyflawni ei ddyletswyddau.

Ar gyfer yr archwiliad hwn nid yw'n ofynnol i mi lunio barn ar gyflawnrwydd na chywirdeb y wybodaeth. Efallai y bydd gwaith asesu arall y byddaf yn ei wneud o dan adran 18 o'r Mesur yn ystyried y materion hyn. Felly, roedd fy archwiliad o asesiad y Cyngor o'i berfformiad yn cynnwys adolygu cyhoeddiad y Cyngor er mwyn nodi a oedd yn cynnwys elfennau a ragnodir mewn deddfwriaeth. Asesais hefyd a oedd y trefniadau ar gyfer cyhoeddi'r asesiad yn cydymffurfio â gofynion y ddeddfwriaeth ac a oedd y Cyngor wedi ystyried canllawiau statudol wrth ei baratoi a'i gyhoeddi.

Ni ellir dibynnu ar y gwaith a wnaed gennyf er mwyn cyflwyno adroddiadau a gwneud argymhellion yn unol ag adrannau 17 a 19 o'r Mesur yn unig i nodi pob gwendid neu gyfle i wella.

Huw Vaughan Thomas
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**

COPI I: Leighton Andrews, Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth
Non Jenkins, Rheolwr
Chris Pugh, Arweinydd Archwilio Perfformiad

# Atodiad 4 – Adborth ar yr archwiliad o asesiad y Cyngor o’i berfformiad

Paul Orders
Prif Weithredwr
Cyngor Dinas Caerdydd
Neuadd y Sir
Glanfa’r Iwerydd
Caerdydd
CF10 4UW

Annwyl Paul

**Adborth ar yr archwiliad o asesiad perfformiad y Cyngor**

Yn ddiweddar archwiliodd yr Archwilydd Cyffredinol asesiad Cyngor Dinas Caerdydd (y Cyngor) o’i berfformiad yn 2013-14 yn unol ag adran 17 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur) a’i God Ymarfer Archwilio.

O ran yr archwiliad hwnnw, cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol dystysgrif cydymffurfio asesiad o berfformiad (dyddiedig 20 Tachwedd 2014) yn cadarnhau bod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau o dan adrannau 15(2), (3), (8) a (9) o’r Mesur ac wedi gweithredu yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru yn ddigonol i gyflawni ei ddyletswyddau.

Yn ystod y gwaith, nodwyd nifer o feysydd i’w gwella a chryfderau. Gwnaethom gytuno i rannu’r rhain â chi cyn gynted â phosibl er mwyn eich galluogi i fwydo unrhyw beth a ddysgwyd i’r broses o gyflawni eich Cynllun Datblygu Sefydliadol. Mae’r rhain wedi’u nodi isod er mwyn i chi eu hystyried.

Meysydd i’w Gwella:

- Nid oedd Cynllun Corfforaethol 2013-17 yn cynnwys amcanion gwella a ddylai nodi blaenoriaethau’r Cyngor yn glir.
- Wedyn, pennodd y Cyngor saith amcan gwella ar ôl i’r Archwilydd Cyffredinol gyhoeddi’r Llythyr Asesiad Gwella 1 ym mis Medi 2013. Fodd bynnag, nid yw’n glir beth yw’r camau gweithredu na’r targedau a fydd yn helpu i gyflawni’r amcanion gwella a nodi cynnydd a gynlluniwyd yn eu herbyn.
- Yn Adroddiad Gwella’r Cyngor ar gyfer 2014, mae data sylfaenol a thargedau wedi’u cynnwys ar gyfer rhai amcanion gwella ond nid ar gyfer pob un. Felly, ni fu’n bosibl i ni nodi pa welliannau penodol yr oedd y Cyngor yn bwriadu eu cyflawni ar gyfer pob amcan ac a oedd gwelliannau wedi’u gwneud.
- Yn Adroddiad Gwella’r Cyngor ar gyfer 2014 mae’r Cyngor wedi cynnwys graffiau er mwyn helpu i asesu cynnydd ar gyfer pedwar o’r amcanion gwella. Dengys y graffiau berfformiad y Cyngor, ar gyfartaledd, a pherfformiad Cymru yn gyffredinol dros nifer o flynyddoedd (mae’r amserlen yn amrywio ar gyfer pob graff). Fodd bynnag, unwaith eto nid yw targedau 2014 ar gyfer y Cyngor wedi’u nodi.
- Ychydig o waith sydd wedi’i wneud i gymharu perfformiad â blynyddoedd blaenorol ac nid yw’r gwaith hwnnw’n cael ei gyflwyno’n gyson.

- Mae Adroddiad Gwella 2014 yn nodi, ar draws pum blaenoriaeth y Cytundeb Canlyniadau â Llywodraeth Cymru, fod 55 o fesurau lle nad oedd 12 wedi cyflawni'r targed. Ni ddarperir unrhyw wybodaeth bellach am y mesurau hyn yn yr adroddiad ac nid yw'n glir pam nad yw'r wybodaeth hon wedi'i chynnwys er mwyn esbonio cynnydd yn erbyn yr amcanion gwella.
- Nid yw'r Cyngor wedi darparu asesiad cyffredinol o berfformiad ar gyfer pob un o'r saith amcan gwella.
- Ar gyfer y 44 o Ddangosyddion Strategol Cenedlaethol a Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus, ni phennodd y Cyngor dargedau ar gyfer 2013-14 ar gyfer saith mesur ac mae pump o'r rhain yn ymwneud ag addysg. Ni roddir unrhyw esboniad ynglŷn â pham na phennwyd targedau.

Cryfderau:

- Mae Adroddiad Gwella 2014 yn cydnabod ei bod yn ofynnol i'r Cyngor asesu perfformiad yn erbyn setiau data'r Dangosyddion Strategol Cenedlaethol a'r Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus.
- Mae Adroddiad Gwella 2014 yn darparu gwybodaeth am setiau data cyffredinol y Dangosyddion Strategol Cenedlaethol a'r Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus
- Nodir perfformiad wedi'i gymharu â gweddill Cymru a gwybodaeth blynyddoedd blaenorol ar gyfer 2011-12, 2012-13 a 2013-14 er mwyn dangos tuedd o ran perfformiad.
- Mae Adroddiad Gwella 2014 yn nodi'r pum dangosydd o blith y Dangosyddion Strategol Cenedlaethol/Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus a berfformiodd orau a'r dangosyddion lle mae'r Cyngor yn y safle isaf yng Nghymru.
- Mae Adroddiad Gwella 2014 yn cyfeirio'n benodol at saith agwedd ar wella'r Mesur Llywodraeth Leol. Cynhwysir matrics er mwyn croesgyfeirio'r amcanion gwella â'r saith agwedd ar wella.
- Cyhoeddwyd fersiwn Saesneg o'r Cynllun Gwella ar wefan y Cyngor cyn y dyddiad terfyn, sef 31 Hydref 2014.

Mae'r materion a nodir uchod i chi eu hystyried. Ni fwriedir iddynt fod yn argymhellion ffurfiol nac yn gynigion ar gyfer gwella sy'n gofyn am roi adroddiad ar unrhyw gamau gweithredu penodol i ni. Fodd bynnag, rydym yn tybio y byddwch am fyfyrio ar y rhain a sicrhau eich hunain bod y broses o gyflawni eich Cynllun Datblygu Sefydliadol yn ymgorffori'r hyn a ddysgwyd gennych.

Yn gywir

Alan Morris

COPI I:Martin Hamilton, Prif Swyddog Newid a Gwella

# Atodiad 5 – Archwiliad o Gynllun Gwella 2015-16 Cyngor Dinas Caerdydd

## Tystysgrif

Ardystiaf fy mod wedi archwilio Cynllun Gwella Cyngor Dinas Caerdydd (y Cyngor) yn unol ag adran 17 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur) a'm Cod Ymarfer Archwilio.

O ganlyniad i'm harchwiliad, rwyf o'r farn bod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 15(6) i (9) o'r Mesur ac wedi gweithredu yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru yn ddigonol i gyflawni ei ddyletswyddau.

## Priod gyfrifoldebau'r Cyngor a'r Archwilydd Cyffredinol

O dan y Mesur, mae'n ofynnol i'r Cyngor baratoi a chyhoeddi Cynllun Gwella sy'n disgrifio ei gynlluniau i gyflawni ei ddyletswyddau i:

- wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni ei swyddogaethau;
- gwneud trefniadau i sicrhau y caiff ei amcanion gwella eu cyflawni; a
- gwneud trefniadau i arfer ei swyddogaethau er mwyn sicrhau y cyrhaeddir unrhyw safon perfformiad a nodir gan Weinidogion Cymru.

Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi ei Gynllun Gwella cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol ar ôl dechrau'r flwyddyn ariannol y mae'n ymwneud â hi, neu ar ôl y cyfryw ddyddiad arall ag y gall Gweinidogion Cymru ei nodi drwy orchymyn.

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am baratoi'r Cynllun Gwella ac am y wybodaeth a nodir ynddo. Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor ystyried canllawiau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru wrth baratoi a chyhoeddi ei gynllun.

Fel archwilydd y Cyngor, mae'n ofynnol i mi, o dan adrannau 17 a 19 o'r Mesur, archwilio'r Cynllun Gwella, ardystio fy mod wedi gwneud hynny a chyflwyno adroddiad i nodi a wyf o'r farn bod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau i baratoi a chyhoeddi Cynllun Gwella yn unol â'r gofynion statudol a nodir yn adran 15 a chanllawiau statudol.

## Cwmpas yr archwiliad o'r Cynllun Gwella

At ddibenion fy ngwaith archwilio, ar yr amod bod awdurdod yn bodloni ei ofynion statudol, byddaf yn derbyn ei fod hefyd wedi cydymffurfio â chanllawiau statudol Llywodraeth Cymru yn ddigonol i gyflawni ei ddyletswyddau.

Ar gyfer yr archwiliad hwn nid yw'n ofynnol i mi lunio barn ar gyflawnrwydd na chywirdeb y wybodaeth nac ar b'un a ellir cyflawni'r Cynllun Gwella a gyhoeddwyd gan y Cyngor. Efallai y bydd gwaith asesu arall y byddaf yn ei wneud o dan adran 18 o'r Mesur yn ystyried y materion hyn. Felly, roedd fy archwiliad o Gynllun Gwella'r Cyngor yn cynnwys adolygu'r cynllun er mwyn nodi a oedd yn cynnwys elfennau a ragnodir mewn deddfwriaeth. Asesais hefyd a oedd y trefniadau ar gyfer cyhoeddi'r cynllun yn cydymffurfio â gofynion y ddeddfwriaeth ac a oedd y Cyngor wedi ystyried canllawiau statudol wrth baratoi a chyhoeddi ei gynllun.

Ni ellir dibynnu ar y gwaith a wnaed gennyf er mwyn cyflwyno adroddiadau a gwneud argymhellion yn unol ag adrannau 17 a 19 o'r Mesur yn unig i nodi pob gwendid neu gyfle i wella.

Huw Vaughan Thomas
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**

COPI I: Leighton Andrews, y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus
Non Jenkins, Rheolwr
Chris Pugh, Arweinydd Archwilio Perfformiad

# Atodiad 6 – Llythyr Archwilio Blynyddol

Y Cynghorydd Phil Bale
Arweinydd
Cyngor Caerdydd
Neuadd y Sir
Glanfa'r Iwerydd
Caerdydd
CF10 4UQ

Annwyl Gynghorydd Bale

## Llythyr Archwilio Blynyddol

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi'r prif negeseuon sy'n deillio o'm cyfrifoldebau statudol o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 fel Archwilydd Penodedig a'm cyfrifoldebau adrodd o dan y Cod Ymarfer Archwilio.

## Cydymffurfiodd y Cyngor â'i gyfrifoldebau yn ymwneud ag adroddiadau ariannol a defnyddio adnoddau

Cyfrifoldeb y Cyngor yw:

- rhoi systemau rheolaeth fewnol ar waith i sicrhau rheoleidd-dra a chyfreithlondeb trafodion a sicrhau bod ei asedau'n ddiogel;
- cadw cofnodion cyfrifyddu cywir;
- paratoi Datganiad Cyfrifon yn unol â gofynion perthnasol; a
- sefydlu ac adolygu'n barhaus drefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau.

Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i mi:

- roi barn archwilio ar y datganiadau cyfrifyddu;
- adolygu trefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau; a
- rhoi tystysgrif yn cadarnhau fy mod wedi cwblhau'r broses o archwilio'r cyfrifon.

Mae awdurdodau lleol yng Nghymru yn paratoi eu datganiadau cyfrifyddu yn unol â gofynion Cod Ymarfer CIPFA/LASAAC ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig. Mae'r Cod hwn yn seiliedig ar Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol.

Ar 29 Medi 2014, rhoddais farn archwilio ddiamod ar y datganiadau cyfrifyddu, gan gadarnhau eu bod yn rhoi darlun cywir  a theg o sefyllfa ariannol a thrafodion y Cyngor a'r Gronfa Bensiwn. Mae fy adroddiad wedi'i gynnwys yn y Datganiad Cyfrifon. Hysbyswyd aelodau'r Pwyllgor Archwilio a'r Cyngor am y materion allweddol a oedd yn deillio o'r archwiliad o'r cyfrifon yn fy adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol ar 15 a 25 Medi 2014 yn y drefn honno, a chyflwynir adroddiad manylach i swyddogion maes o law.

Yn gyffredinol, roedd y datganiad cyfrifon a'r papurau gwaith cysylltiedig a gyflwynwyd i'w harchwilio o safon dda, gyda sylw yn cael ei roi i faterion a godwyd y llynedd mewn cysylltiad â gweithdrefnau ar y penwythnos i gefnogi dyledwyr a balansau credydwyr. Cyfeiriais hefyd at y ffaith nad yw'r Cyngor yn cydymffurfio â chod ymarfer CIPFA o ran prisiad a dibrisiant asedau dros ben ond ein bod yn fodlon nad oedd hwn yn fater perthnasol eleni. Cytunwyd y câi polisïau cyfrifyddu'r Cyngor eu diweddaru er mwyn esbonio rhesymau'r Cyngor dros y gwyriadau hyn oddi wrth y Cod.

## Rwy'n fodlon bod gan y Cyngor drefniadau priodol ar waith i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau ond bod meysydd i'w gwella wedi'u nodi

Mae fy ystyriaeth o drefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wedi'i seilio ar y gwaith archwilio a wnaed ar y cyfrifon ac rwyf hefyd wedi dibynnu ar y gwaith a gwblhawyd fel rhan o'r Asesiad Gwella o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y mesur). Ar y cyfan, rwy'n fodlon nad oes unrhyw faterion a fyddai'n effeithio ar y farn archwilio ddiamod a roddwyd ar ddatganiadau cyfrifon 2013-14. Fodd bynnag, codwyd nifer o faterion gan yr Archwilydd Cyffredinol yn ei Adroddiad Gwella Blynyddol a'i Asesiad Corfforaethol ar gyfer 2014 a drafodwyd yng nghyfarfodydd y Cabinet a'r Cyngor ar 18 a 25 Medi yn y drefn honno. Prif gasgliad yr adroddiad oedd bod 'trefniadau arwain a rheoli tameidiog wedi golygu nad yw perfformiad gwan mewn meysydd gwasanaeth allweddol wedi gwella'. O ystyried y materion hyn, cytunwyd y cynhelir adolygiad dilynol yn 2014-15 gyda chynnydd yn cael ei fonitro drwy gydol y cyfnod hwn. Mae'n hanfodol bod y Cyngor yn mynd i'r afael â'r materion er mwyn iddo wella ei berfformiad.

Mae'r sefyllfa ariannol heriol iawn sy'n wynebu pob corff llywodraeth leol yng Nghymru yn parhau ac, er bod setliad cyllidebol diweddar Caerdydd yn well na'r disgwyl, mae angen gwneud arbedion sylweddol o hyd yn ystod y tair blynedd nesaf.

Cydnabyddir bod gan y Cyngor drefniadau da o ran cynllunio ariannol a rheoli'r gyllideb yn gyffredinol. Mae'r Cyngor wedi cydnabod bod angen iddo ystyried gwneud newidiadau sylfaenol i'r ffordd y mae'n gweithredu ac yn darparu ei wasanaethau ac y bydd angen gwneud penderfyniadau anodd er mwyn cau'r bwlch ariannol. Mae'n bwysig bod y Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn cael ei fonitro'n agos a'i fod yn cysylltu'n glir â chynlluniau arbed corfforaethol a chyfarwyddiaethau, cynlluniau cyflawni gwasanaethau ac ati, a bod unrhyw lithriant yn cael ei drin yn gyflym ac yn effeithiol er mwyn cyflawni targedau arbed. Mae Aelodau a Swyddogion yn dal i wynebu cyfnod heriol.


Cyhoeddais dystysgrif yn cadarnhau bod yr archwiliad o'r cyfrifon wedi'i gwblhau ar 29 Medi 2014.

Ar hyn o bryd, disgwylir i'r ffi archwilio ariannol ar gyfer 2013-14 fod yn unol â'r ffi y cytunwyd arni a nodir yn yr Amlinelliad o'r Archwiliad Ariannol Blynyddol.


Yn gywir

Ann-Marie Harkin
**Dros ac ar ran yr Archwilydd Penodedig**


# Atodiad 7 – Gwybodaeth am incwm, gwariant a lefelau staffio'r Cyngor





## Cyfanswm Incwm a Gwariant




## Nifer y staff cyfwerth ag amser llawn 2010-11 i 2012-13




## Cyfanswm Gwariant Gros yn ôl maes gwasanaeth



# Atodiad 8 – Argymhellion adroddiadau cenedlaethol 2014-15

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad | |
|---|---|---|---|
| Mai 2014 | Craffu Da? Cwestiwn Da! | A1 | Egluro rôl aelodau gweithredol ac uwch swyddogion wrth gyfrannu at y broses graffu. |
| | | A2 | Sicrhau bod aelodau craffu, ac yn benodol cadeiryddion craffu, yn cael hyfforddiant a chymorth er mwyn sicrhau eu bod yn meddu ar yr holl sgiliau sydd eu hangen i gynnal gwaith craffu effeithiol. |
| | | A3 | Datblygu prosesau blaenraglennu craffu ymhellach er mwyn:<br>• darparu rhesymeg glir dros ddewis pynciau;<br>• canolbwyntio mwy ar ganlyniadau;<br>• sicrhau y defnyddir y dull craffu mwyaf addas ar gyfer y maes pwnc a'r canlyniad dymunol; a<br>• chysoni rhaglenni craffu â threfniadau rheoli perfformiad, hunanwerthuso a gwella'r cyngor. |
| | | A4 | Sicrhau bod gwaith craffu yn defnyddio gwaith archwilio, arolygu a rheoleiddio yn effeithiol a bod ei weithgareddau yn ategu gwaith cyrff adolygu allanol. |
| | | A5 | Sicrhau y caiff effaith craffu ei gwerthuso'n briodol ac y gweithredir arni er mwyn gwella effeithiolrwydd y swyddogaeth; gan gynnwys gwneud gwaith dilynol ar gamau gweithredu arfaethedig ac archwilio canlyniadau. |
| | | A6 | Cynnal hunanwerthusiadau rheolaidd o drefniadau craffu gan ddefnyddio 'canlyniadau a nodweddion trefniadau trosolwg a chraffu effeithiol i lywodraeth leol' a ddatblygwyd gan Rwydwaith Swyddogion Craffu Cymru. |
| | | A7 | Rhoi cynlluniau gweithredu ar gyfer gwella craffu ar waith yn seiliedig ar astudiaeth wella Swyddfa Archwilio Cymru. |
| | | A8 | Mabwysiadu 10 Egwyddor Cyfranogaeth Cymru ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd wrth wella'r ffordd y mae'r swyddogaeth graffu yn ymgysylltu â'r cyhoedd a rhanddeiliaid. |

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad | |
|---|---|---|---|
| Gorffennaf 2014 | Pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant - Canfyddiadau adolygiad o gynghorau yng Nghymru | A1 | Ynghyd â phartneriaid, mapio ac adolygu'r gwariant ar wasanaethau NEET er mwyn deall yn well pa adnoddau sydd eu hangen i gyflawni'r Fframwaith. |
| | | A2 | Egluro eu dull strategol o ostwng cyfran y bobl ifanc 19-24 oed sy'n NEET yn ogystal â'u dull ar gyfer pobl ifanc 16-18 oed. |
| | | A3 | Canolbwyntio ar bobl ifanc sy'n wynebu rhwystrau sylweddol neu luosog i ymgysylltu ag addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant yn hytrach na'r rhai sy'n fwy tebygol o ailymgysylltu heb lawer o gymorth ychwanegol. |
| | | A4 | Datblygu eu hamcanion a'u targedau ar gyfer lleihau nifer y bobl ifanc sy'n NEET fel bod modd eu dwyn i gyfrif ac fel bod eu gwaith yn gyson â thargedau ac amcanion Llywodraeth Cymru. |
| | | A5 | Sicrhau bod aelodau etholedig a phartneriaid yn deall yn llwyr fod gan gynghorau gyfrifoldeb clir i arwain a chydgysylltu gwasanaethau ieuenctid i bobl ifanc 16-24 oed. |
| | | A6 | Gwella prosesau i werthuso effeithiolrwydd a gwerth am arian cymharol y gwasanaethau a'r ymyriadau yn eu hardal y bwriedir iddynt helpu i ostwng cyfran y bobl ifanc sy'n NEET. |

<table>
<tr><th>Dyddiad yr adroddiad</th><th>Teitl yr adolygiad</th><th colspan="2">Argymhelliad</th></tr>
<tr><td rowspan="4">Hydref 2014</td><td rowspan="4">Cyflawni â llai - yr effaith ar wasanaethau iechyd yr amgylchedd a dinasyddion</td><td>A1</td><td>Diwygio’r safonau arfer gorau er mwyn:<br>• cysoni gwaith ym maes iechyd yr amgylchedd â blaenoriaethau strategol cenedlaethol;<br>• nodi cyfraniad ehangach iechyd yr amgylchedd at gyflawni blaenoriaethau strategol Llywodraeth Cymru; a<br>• nodi buddiannau ac effaith gwasanaethau iechyd yr amgylchedd o ran diogelu dinasyddion.</td></tr>
<tr><td>A2</td><td>Rhoi’r sgiliau a’r cymorth sydd eu hangen ar gadeiryddion ac aelodau pwyllgorau craffu i graffu ar berfformiad gwasanaethau, cynlluniau arbed ac effaith gostyngiadau cyllidebol a’u herio’n effeithiol.</td></tr>
<tr><td>A3</td><td>Ymgysylltu’n well â thrigolion lleol ynghylch cynlluniau i dorri cyllidebau a newid gwasanaethau drwy:<br>• ymgynghori â thrigolion ar newidiadau arfaethedig mewn gwasanaethau a defnyddio’r canfyddiadau i lywio penderfyniadau;<br>• amlinellu pa wasanaethau a gaiff eu torri a sut y bydd y toriadau hyn yn effeithio ar drigolion; a<br>• nodi cynlluniau i gynyddu taliadau neu newid safonau gwasanaeth.</td></tr>
<tr><td>A4</td><td>Gwella effeithlonrwydd a gwerth am arian drwy:<br>• Nodi dyletswyddau statudol ac anstatudol gwasanaethau iechyd yr amgylchedd cynghorau.<br>• Cytuno ar flaenoriaethau iechyd yr amgylchedd ar gyfer y dyfodol a rôl cynghorau wrth gyflawni’r rhain.<br>• Pennu ‘safon dderbyniol o berfformiad’ ar gyfer gwasanaethau iechyd yr amgylchedd (uchaf ac isaf) a rhoi cyhoeddusrwydd iddynt ymhlith dinasyddion.<br>• Gwella effeithlonrwydd a chynnal perfformiad ar y lefel y cytunwyd arni drwy wneud y canlynol:<br>– cydweithio a/neu integreiddio ag eraill er mwyn lleihau costau a/neu wella ansawdd;<br>– gosod gwasanaethau ar gontractau allanol lle y gellir eu darparu mewn ffordd fwy cost-effeithiol yn unol â’r safonau y cytunwyd arnynt;<br>– cyflwyno a/neu gynyddu taliadau a chanolbwyntio ar weithgarwch sy’n cynhyrchu incwm;<br>– defnyddio grantiau mewn ffordd strategol er mwyn sicrhau’r effaith a’r elw mwyaf; a<br>– lleihau gweithgareddau er mwyn canolbwyntio ar flaenoriaethau statudol a strategol craidd.</td></tr>
</table>

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad | |
|---|---|---|---|
| Hydref 2014 | Cyflawni â llai - yr effaith ar wasanaethau iechyd yr amgylchedd a dinasyddion | A5 | Gwella gwaith cynllunio strategol drwy:<br>• nodi, casglu a dadansoddi data ariannol, data ar berfformiad a data ar alw/angen mewn perthynas â gwasanaethau iechyd yr amgylchedd;<br>• dadansoddi data a gasglwyd er mwyn llywio a deall y gydberthynas rhwng 'cost: budd: effaith' a defnyddio'r wybodaeth hon i ategu penderfyniadau ar ddyfodol gwasanaethau iechyd yr amgylchedd cyngor; a<br>• chytuno sut y gellir defnyddio gwybodaeth ddigidol i gynllunio a datblygu gwasanaethau iechyd yr amgylchedd yn y dyfodol. |
| Ionawr 2015 | Rheoli Effaith Diwygiadau Lles ar Denantiaid Tai Cymdeithasol yng Nghymru | A1 | Gwella prosesau cynllunio strategol a chydgysylltu gweithgarwch yn well er mwyn mynd i'r afael ag effaith y diwygiadau lles ar denantiaid tai cymdeithasol drwy sicrhau bod cynlluniau gweithredu cynhwysfawr ar waith sy'n ymdrin â gwaith holl adrannau perthnasol cynghorau, cymdeithasau tai a gwaith rhanddeiliaid allanol. |
| | | A2 | Gwella trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd am ddiwygiadau lles drwy wneud y canlynol:<br>• penodi aelodau a swyddogion arweiniol i gymryd cyfrifoldeb am ddarparu arweiniad strategol mewn perthynas â'r diwygiadau lles a bod yn atebol am berfformiad; a<br>• sicrhau bod aelodau yn cael hyfforddiant digonol a briffiau rheolaidd ar y diwygiadau lles er mwyn gallu herio perfformiad a phenderfyniadau a chraffu arnynt. |
| | | A3 | Sicrhau bod perfformiad o ran y diwygiadau lles yn cael ei reoli'n effeithiol drwy wneud y canlynol:<br>• pennu mesurau priodol i alluogi aelodau, swyddogion a'r cyhoedd i lunio barn ar gynnydd wrth gyflawni camau gweithredu;<br>• sicrhau bod gwybodaeth am berfformiad yn ymdrin â gwaith yr holl asiantaethau perthnasol ac yn enwedig y cymdeithasau tai; a<br>• phennu mesurau i lunio barn ar effaith ehangach y diwygiadau lles. |
| | | A4 | Atgyfnerthu'r ffordd y caiff risgiau o ran y diwygiadau lles eu rheoli drwy greu un dull corfforaethol o weithredu sy'n cydgysylltu gweithgarwch ar draws y cyngor a gwaith gan eraill er mwyn rhoi digon o sicrwydd bod yr holl gamau angenrheidiol a phriodol i liniaru risg yn cael eu cymryd. |

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad | |
| --- | --- | --- | --- |
| Ionawr 2015 | Rheoli Effaith Diwygiadau Lles ar Denantiaid Tai Cymdeithasol yng Nghymru | A5 | Ymgysylltu'n well â thenantiaid sydd wedi colli'r cymhorthdal ystafell sbâr drwy wneud y canlynol:<br>• darparu cyngor a gwybodaeth reolaidd am yr opsiynau sydd ar gael iddynt ymdrin ag effaith ariannol y newid yn eu hamgylchiadau;<br>• hyrwyddo llinell gymorth 'Mae budd-daliadau yn newid'; a<br>• chynorthwyo'r tenantiaid hynny sydd wedi colli'r cymhorthdal ystafell sbâr yn benodol i gymryd rhan mewn cynlluniau cyflogaeth rhanbarthol/cenedlaethol. |
| | | A7 | Gwella'r ffordd y caiff Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn eu rheoli a'u defnyddio a gwella mynediad iddynt drwy:<br>• sefydlu polisi neu ganllaw clir i'r cyhoedd, sydd ar gael ar ffurf copi caled ac ar-lein, sy'n nodi polisi a threfniadau'r cyngor ar gyfer gweinyddu Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn;<br>• diffinio'n glir y costau tai cymwys ac anghymwys a gaiff eu cwmpasu gan Daliadau Tai yn ôl Disgresiwn mewn ffurflenni cais, dogfennau polisi a thaflenni canllaw i ymgeiswyr;<br>• nodi'n glir y cyfnodau hwyaf/byrraf posibl y caiff y taliadau hyn eu talu;<br>• pennu a chyhoeddi'r amserlen y bydd yn rhaid i'r cyngor ei dilyn wrth benderfynu ar geisiadau am Daliadau Tai yn ôl Disgresiwn;<br>• cynnwys gwybodaeth mewn deunyddiau cyhoeddus ar bolisi'r cyngor ar yr hawl i adolygu neu apelio yn erbyn penderfyniad a'r amserlenni a'r broses y dylid eu dilyn wrth benderfynu ar y rhain; a<br>• diffinio'n glir y grwpiau â blaenoriaeth ar gyfer Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn mewn deunyddiau cyhoeddus er mwyn sicrhau y gall y rheini sy'n ceisio cymorth, a'r asiantaethau sy'n eu cynorthwyo, asesu p'un a yw'r taliadau hyn yn opsiwn ymarferol i ddiwallu eu hanghenion ariannol a'u hanghenion o ran tai. |

Wales Audit Office

24 Cathedral Road

Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales

Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru